

# RHYBUDD O GYFARFOD



*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*

*Prif Weithredwr*

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Penrhyndeudraeth*

*Gwynedd LL48 6LF*

*Ffôn: (01766) 770274*

*E.bost: [parc@eryri.llyw.cymru](mailto:parc@eryri.llyw.cymru)*

**Cyfarfod:** Pwyllgor Cynllunio a Mynediad

**Dyddiad:** Dydd Mercher 19 Ebrill 2023

**Amser:** 10.00 y.b.

**Man Cyfarfod:** Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***

*Councillor: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes  
June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,  
John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Members appointed by Conwy County Borough Council***

*Councillor: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Members appointed by The Welsh Government***

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,  
Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**  
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Datgan Diddordeb**  
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddidiordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. **3 - 8**
3. **Cofnodion**  
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 08 Mawrth 2023 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. **9 - 139**
4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**  
Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma) **140 - 172**
5. **Adroddiadau Diweddarau**  
Cyflwyno adroddiadau diweddarau, er gwybodaeth. (Copïau yma) **173 - 183**
6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**  
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma) **184 - 188**
7. **Penderfyniad Apêl**  
Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i ganiatau apêl NP4/26/22F, Dileu Cytundeb Adran 106 (Meddianaeth Lleol) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP4/26/22B dyddiedig 27/02/2008, Yr Hen Ysgol, Nant y Rhiw, Llanrwst, Apêl gan Mr. Sean Taylor yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wrthod y cais (Amgaeir copi o benderfyniad yr Arolygydd – Copïau yma)

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
DYDD MERCHER 8 MAWRTH 2023**

Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

**PRESENNOL:**

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms Delyth Lloyd.

**Swyddogion**

Jonathan Cawley, Jane Jones, Aled Lloyd, Richard Thomas, Alys Tatum, Eiliw Owen, Peter Rutherford, Siwan Lyall, Anwen Gaffey.

**Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jo Nuttall; Mr. Brian Angell, Ms. Naomi Luhde-Thompson.  
Mr. G. Iwan Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad hefyd ar gael ar-lein.

**1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd un ar ddeg o fyfyrwyr a dau ddarlithydd o Brifysgol Caerdydd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i arsylwi a gwrandao ar y trafodaethau. Hefyd, yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, croesawodd y Cadeirydd Siwan Lyall i'r cyfarfod.

**2. Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

**3. Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 25 Ionawr ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

**4. Ailbenodi Fforymau Mynediad Lleol erbyn Ebrill 2023**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i geisio cymeradwyaeth i'r broses a'r amserlen ar gyfer ailbenodi Fforymau Mynediad Lleol, ac i benodi panel dethol o Aelodau.

Adroddwyd – cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a Lles yr adroddiad a'r cefndir.

**PENDERFYNWYD**

- 1. cymeradwyo'r drefn a'r amserlen arfaethedig ar gyfer ailbenodi'r Fforymau Mynediad Lleol.**

2. **penodi panel dethol o bedwar Aelod Awdurdod i ystyried ceisiadau am aelodaeth ar y Fforymau. Dewiswyd yr aelodau canlynol:-  
Cynghorwyr Meryl Roberts, John Pughe Roberts; Mr. Tim Jones,  
Ms. Tracey Evans.**

5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir  
Cyflwynwyd** – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Adroddiad Adolygiad Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Eryri  
Cyflwynwyd** – Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio i gymeradwyo'r Adroddiad Adolygiad Drafft ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Adroddwyd - Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio'r adroddiad a'r cefndir a chynghorodd yr Aelodau ar y camau nesaf. Dywedodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio bod yr Adroddiad Adolygu Drafft bellach wedi'i gyflwyno i Fforwm Eryri ers i'r adroddiad gael ei ystyried gan yr Aelodau ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu Drafft ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel y'i cyflwynwyd.**

7. **Adroddiadau Diweddarau  
Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

8. **Penderfyniadau Dirprwyedig  
Cyflwynwyd a Chafwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9. **Apeliadau Cynllunio  
Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – copïau o'r penderfyniadau apêl a ganlyn:-

- (a) Apêl gan Mr a Mrs. M. Gilmore-Parry yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio i newid defnydd garej ddomestig bresennol i lety gwyliau, Bronant, Pentre Du, Betws y Coed. LL24 0BY (Gwrthodwyd yr apêl)
- (b) Apêl gan Ms Caroline Evans yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio i leoli carafán sefydlog am gyfnod dros dro (3 blynedd), ym Mhlas Gwynfryn, Llanbedr, Gwynedd. LL45 2NY (Gwrthodwyd yr apêl)

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45**



## ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 8 MAWRTH 2023

### Rhif yr Eitem.

#### 5 . Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

- (1) NP 2/11/L524 – Dymchwel garej a chodi estyniad ochr deulawr yn y cefn ac unllawr, Dolafon, Nant Gwynant. LL55 4NL

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r ystyriaethau cynllunio. **PENDERFYNWYD** rhoi caniatâd yn unol â'r argymhellad.

- (2) NP4/11/337D – Adeiladu tŷ fforddiadwy lleol newydd a gosod gwasanaeth gwaredu dŵr budr cysylltiedig, Fferm Hendre, Betws-y-Coed. LL24 0BN

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd fanylion ychwanegol pellach fel a ganlyn:-

- hysbysodd y Swyddog Achos yr Aelodau o'r hanes cynllunio, gan gadarnhau bod cynnig am annedd ar y safle hwn wedi'i wrthod ddwywaith o'r blaen. Y tro cyntaf, roedd y cais am dŷ marchnad agored a'r ail gais am dŷ fforddiadwy, ond ni chyflwynwyd unrhyw gyfiawnhad i gefnogi hyn. Roedd y cyflwyniad diweddaraf yn fwy manwl.
- roedd adroddiad y Swyddog Achos yn nodi bod y ffin datblygu tai tua 40 metr i ffwrdd o'r safle. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad holwyd y mesuriad hwn ac awgrymwyd ei fod yn fwy na 60 metr i ffwrdd. Byddai'r mesuriad yn dibynnu o ble y mesurir. Ar gyfer dibenion yr adroddiad, cymerwyd y mesuriad o ffin llinell goch y safle. Fodd bynnag, os cymerwch y mesuriad o leoliad yr annedd ei hun i'r ffin datblygu tai, yna mae hyn yn mesur tua 60 metr.
- codwyd ymholiad hefyd am faint yr annedd a bod yr arwynebedd llawr mewnol gros yn mesur 114.91 m<sup>2</sup> ac nid 97.56 m<sup>2</sup> fel y nodir yn yr adroddiad. Wedi adolygu'r mesuriad 114.91, roedd yn ymddangos bod arwynebedd y wal fewnol wedi'i gynnwys (ond NID y wal fewnol rhwng y modurdy a'r annedd ei hun) ac roedd yn ymddangos bod mesuriad y cyntedd hefyd wedi'i gynnwys. Gofynnwyd i gydweithiwr adolygu'r mesuriad a ddaeth i 102.54 m<sup>2</sup> a oedd yn ymddangos fel pe bai'n cyd-fynd â'r mesuriad 97 ac a oedd yn wahaniaeth bychan iawn. Byddai amod hefyd i sicrhau na fyddai modd trosi gofod y modurdy yn llety cyfanheddol.

#### Siarad Cyhoeddus

Anerchodd Mr. William Pierce, yr ymgeisydd, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gofynnodd i'r Aelodau ystyried yr hyn a ganlyn:-

- Diolchodd Mr. Pierce i'r Pwyllgor am y cyfle i siarad o blaid ei gais i adeiladu tŷ fforddiadwy ar fuarth fferm Betws y Coed i ddarparu cartref diogel iddo ef a'i fab.
- Mr. Pierce oedd y drydedd genhedlaeth i ffermio ym Metws-y-Coed ac amlinellodd y prif resymau pam y dylai'r pwyllgor gefnogi ei gais.
- bod y gymuned leol yn cefnogi'r bwriad / cynnig ac wedi dechrau deiseb yn cefnogi cais yr ymgeisydd i aros ar y fferm ac adeiladu bwthyn i ffermio, gweithio fel adeiladwr a saer maen, a byw yn y gymuned y mae wedi byw ynddi ar hyd ei oes.
- mae'r ymgeisydd wedi bod yn byw mewn carafán ar y fferm ers dros 12 mlynedd ac wedi talu ei dreth cyngor bob amser yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd y garafán bellach yn addas i fyw ynddi yn llawn amser ac mae hyn wedi cael effaith andwyol ar ei iechyd.
- ni all yr ymgeisydd fforddio prynu tŷ yn yr ardal ac nid oedd llety addas i'w rentu yn ddigon agos i ddaliad y fferm.

- mae mab yr ymgeisydd wedi rhentu eiddo ym Metws y Coed ers 10 mlynedd ac nid oedd yn siŵr pa mor hir y gallai barhau i aros yn yr eiddo hwn.
- byddai'r annedd newydd yn gartref i Mr. Pierce a'i fab ac yn caniatáu iddynt ill dau barhau i weithio a byw yn y gymuned.
- roedd mab yr ymgeisydd yn gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac roedd angen iddo fod yn agos at ei waith i ymateb i alwadau brys.

Anerchodd Mr. Jamie Bradshaw, ar ran Mr. Emlyn Roberts, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gofynnodd i'r Aelodau ystyried y gwrthwynebiadau a ganlyn:-

- Mr. Emlyn Roberts oedd perchennog y tŷ drws nesaf i safle Hendre Rhys Gethin a hefyd y parc porthdy.
- oherwydd y terfyn amser dywedodd Mr Bradshaw na fyddai'n ymdrin â'r holl faterion difrifol a pherthnasol gyda'r achos hwn ac yn hytrach byddai'n canolbwyntio ar faterion allweddol.
- y peth pwysicaf oedd na ellir draenio carthffosiaeth heb achosi llygredd. Roedd hyn oherwydd nad yw'r safle'n darparu digon o le i osod ffos ddraenio, nac i ddarparu'r gwahaniad lleiaf oddi wrth y cymydog. Roedd tystiolaeth dechnegol fanwl wedi'i darparu i swyddogion, yn ogystal â chadarnhad ysgrifenedig gan Brif Swyddog Rheoli Adeiladu Conwy na fydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu, a bod y safle yn syml yn rhy fach ar gyfer tanc septig a chae draenio. Ni fanylwyd ar hyn yn yr adroddiad er bod swyddogion yn ymwybodol o hyn.
- mae hyn yn ffactor materol allweddol, ac os na ellir draenio'r safle yn foddhaol rhaid gwrthod y cais. Yn wir, os caiff ei adeiladu fel y bwriedir, bydd y cynllun yn achosi llygredd carthion ac yn cael effaith ddifrifol ar ei gleient gan fod ei eiddo wedi ei osod o dan y safle yn ogystal ag afon gyfagos.
- o ran draenio dŵr wyneb, gan ei bod yn ymddangos bod gan y safle athreiddedd, rhaid defnyddio ffos ddraenio, ond nid yw hyn yn cael ei gynnig ac yn lle hynny dangosir cysylltiad â draen dŵr wyneb a dellir nad oedd ganddo gapasiti digonol. Ni ddarparwyd unrhyw fanylion draenio dŵr wyneb, er bod hyn yn ofynnol gan bolisi lleol a chenedlaethol.
- gan droi at y polisi ar safleoedd eithriedig, tra bod swyddogion wedi dadlau y dylid cymhwyso hyblygrwydd, nid oedd y gwahaniad oddi wrth y ffin yn ddibwys ar 61m ar y pwynt agosaf. Gwahanwyd y safle hefyd oddi wrth y ffin gan ffordd, tir agored, coed, ychydig o strwythurau bach, a nant. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r setliad, yn achos clir a sylweddol o dorri polisi ac unrhyw gymeradwyaeth yn fater o 'yrru coets a cheffylau' drwy'r CDLI.
- mae'r cais byw am 5 tŷ fforddiadwy dim ond 160m o'r safle hefyd yn tanseilio'r achos gan y byddai hyn o bosib yn cwrdd â'r angen, gan dorri rheolau'r polisi hefyd.
- yn fwy damniol, roedd yr Awdurdod wedi gwrthod cais yn flaenorol ar y sail bod y safle mewn cefn gwlad agored ac felly nad oedd yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 11. Gan fod y polisi perthnasol yn y CDLI yr un fath, ni all fod unrhyw seiliau cadarn nac amddiffynadwy i ddod i benderfyniad gwahanol yn yr achos hwn gan nad oes dim wedi newid.
- roedd yna hefyd fyrdd o faterion eraill, megis y ffaith fod maint mewdol gros y tŷ yn 114 medr sgwâr, nid 97 medr sgwar, sy'n golygu nad oedd yn cydymffurfio gyda therfynau maint tai fforddiadwy, diffyg arolwg ecoleg, drychiad y safle uwchben eiddo ei gleient gan achosi gor-edrych niweidiol, ac y byddai'n anodd neu'n amhosibl parcio ar y safle.

- testun pryder hefyd oedd hanes hir yr ymgeisydd o dorri rheolau cynllunio a olygai pe byddai'r tŷ yn cael ei adeiladu, ni fyddir yn cydymffurfio ag unrhyw reolaethau ac amodau, gan ddarostwng ei gleient i flynyddoedd o broblemau pellach.
- ar y cyfan, tra'n cydymdeimlo â sefyllfa'r ymgeisydd, mae'r cynnig gerbron yr Aelodau yn amlwg yn torri rheolau'r CDLI, ni ellir ei ddraenio heb achosi problemau llygredd a llifogydd, a llu o faterion eraill. Nid oedd unrhyw sail gadarn ar gyfer cymeradwyo, ac yn wir, fel ag y mae, roedd yr achos yn hynod heriol oherwydd yr achosion niferus o dorri rheolau polisïau a gweithdrefnau. Roedd asesiad cywir o'r materion yn glir ac yn pwysu'n drwm o blaid gwrthod y cynllun ac felly gyda pharch gofynnwyd i'r Pwyllgor wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD** yn ddarostyngedig i gytundeb meddiannaeth leol fforddiadwy Adran 106, i roi caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

- (3) NP5/52/258B – Gosod peiriant talu ac arddangos, Maes Parcio ger Llynau Cregennan, Arthog.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r ystyriaethau cynllunio a thrafododd yr aelodau'r cais yn fanwl.

**PENDERFYNWYD** rhoi caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

- (4) NP5/72/250B – Adeiladu gorlifan ategol, sianel ddal dŵr a siambr mesur llif o dan y ddaear, ad-drefnu'r maes parcio presennol a dargyfeirio cebl foltedd uchel o dan y ddaear, gan gynnwys mesurau lliniaru tirwedd ac ecolegol, ynghyd â gwaith galluogi gan gynnwys darparu ffyrdd cludo, mannau storio/gosod deunyddiau, gwelliannau ffyrdd lleol, compownd safle a chyfleusterau lles a pharcio cerbydau, Cronfa Ddŵr Llyn Celyn, Frongoch. LL23 7NU

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a rhoddodd wybod am y cefndir a'r ystyriaethau cynllunio. Ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, mae Awdurdod Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi dweud nad oes ganddyn nhw unrhyw wrthwynebiad.

Siarad Cyhoeddus

Anerchodd Mr. Steve Shakespeare, ar ran yr ymgeiswyr, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gofynnodd i'r Aelodau ystyried yr hyn a ganlyn:-

- Dywedodd Mr Shakespeare ei fod yn Rheolwr Peirianeg Diogelwch Argaeau Gogledd Cymru gyda Dŵr Cymru.
- dros y blynyddoedd diwethaf roedd y Rheoliadau ynghylch diogelwch argaeau wedi'u tynhau mewn ymateb i bryderon newid hinsawdd.
- roedd yr argae yng Nghronfa Ddŵr Llyn Celyn yn gwbl ddiogel ond nododd yr arolygiad annibynnol diweddaraf yr angen am gapasiti gorlifo ychwanegol, er mwyn bodloni'r Rheoliadau presennol. Roedd hwn yn ofyniad gorfodol y mae'n rhaid i Ddŵr Cymru gydymffurfio ag ef.
- mae angen y cynhwysedd gorlifan ychwanegol yn Llyn Celyn i ddelio â llifddwr o ganlyniad i stormydd y rhagwelir mai dim ond unwaith mewn mwy na 10,000 o flynyddoedd y rhagwelir y byddant yn digwydd.
- Roedd Dŵr Cymru yn ymwybodol iawn o sensitifwydd Llyn Celyn, o ran ei hanes a'i ansawdd amgylcheddol, ac roedd wedi ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned leol, cyrff rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill, wrth gyflwyno'r cynigion presennol.
- bydd y gorlifan ategol arfaethedig yn cael ei leoli ym mhen gogleddol crib yr argae a bydd yn cael ei adeiladu mewn cwlferd dan do lle mae'n mynd o dan y maes parcio presennol. Byddai'r maes parcio'n cael ei adfer pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau a byddai glaswellt ar ben y cwlferd er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol ar y dirwedd, a byddai byrddau picnic, raciau beiciau a byrddau dehongli hefyd yn cael eu darparu.

- ni fydd pen gorllewinol y gorlifan yn cael ei orchuddio, ond mae ei ochrau wedi'u hwynebu â cherrig lleol a phlanhigion brodorol yn cael eu gwneud i integreiddio i'r dirwedd o'i chwmpas.
- bydd gwaith plannu coed brodorol hefyd yn cael ei wneud, yn bennaf yn yr ardaloedd o dan yr argae, a bydd mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i wrthbwysu unrhyw niwed amgylcheddol neu ecolegol.
- tra bod y gwaith yn cael ei wneud bydd compowndiaid adeiladu dros dro yn cael eu sefydlu ar lwyfannau gwastad presennol sydd wedi'u lleoli o dan yr argae, ynghyd â ffyrdd cludo dros dro, gyda chompownd bach ar y maes parcio presennol. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu hadfer ar ôl cwblhau'r datblygiad.
- Rhaid i Dŵr Cymru ddarparu'r gorlifan ategol arfaethedig i sicrhau diogelwch argaeau, yn y tymor hir, ac mae'r cynigion yn cael cefnogaeth y gymuned leol, cyrff rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill. Mae'r mesurau lliniaru sy'n rhan annatod o'r datblygiad arfaethedig wedi'u dylunio i wneud iawn am unrhyw niwed amgylcheddol. Gofynnodd Dŵr Cymru i'r Pwyllgor gymeradwyo argymhelliad y Swyddog Cynllunio a'i benderfyniad i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i roi caniatâd gydag amodau priodol.**

## 7. Adroddiadau Diweddaru

- (1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

NP4/29/ENF10G – Tafarn y Machno, Penmachno

Cytunodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro i ofyn i'r swyddog achos roi diweddariad ar wahân i'r Cynghorydd Dilwyn Roberts.

NP5/65/ENF115A – Tir yn Hengwrt, Llanelltyd

Rhoddyd diweddariad llafar i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

- (2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**  
NP5/61/632 – Merthyr Isaf, Hwylfa'r Nant, Harlech  
 Rhoddyd diweddariad llafar i'r aelodau.  
**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

- (3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er Gwybodaeth**  
NP5/64/190 – Tir yn Ffridd Bryn Coch, Llanegryn  
 Cytunodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro i ofyn i'r swyddog achos roi rhagor o fanylion i'r Cynghorydd Louise Hughes.  
**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

<u>Rhif Eitem / Item No.</u>	<u>Cyfeirnod / Reference No.</u>	<u>Disgrifiad / Description.</u>	<u>Swyddog Achos / Case Officer</u>
	NP5/53/576	Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan dren a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol, Tir yn Y Bala./ Proposed extension of Llyn Tegid narrow gauge railway comprising of 1200m of railway track, installation of level crossing, erection of new station building, ancillary engine and carriage building, signal box and associated development, Land at Bala.	Richard James

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
– Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**

**Dyddiad: 19-Ebrill-2023**

**Cais Rhif:** NP5/53/576

**Dyddiad Cofrestru:** 29/11/21

**Cymuned:** Bala, Llangywer

**Cyfeirnod Grid:** 293027.7 335035.5

**Swyddog Achos:** Mr Richard James

**Lleoliad:**

Tir yn Y Bala.

**Ymgeisydd:**

Julian Birley,  
Rheilffordd Llyn Tegid Ltd.  
c/o Agent

**Disgrifiad:**

Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan dren a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol

**Crynodeb o'r Argymhelliad:**

**GWRTHOD** am y rhesymau a ganlyn:

1. Nid yw'r Awdurdod yn gallu cadarnhau na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyflwr Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac Ardal Cadwraeth Arbennig Llyn Tegid a safle Ramsar Llyn Tegid.

O dan Reoliad 63(5) o'r Rheoliadau Asesu Cynefinoedd, yn niffyg casgliad derbynol i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ni all yr Awdurdod gymeradwyo'r cais.

2. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig, oherwydd y sied locomotifau arfaethedig, slab concrit cysylltiedig â thrac reilffordd gwasanaeth ac oherwydd eu bod yn annigonol o ran y wybodaeth sydd wedi cael ei chyflwyno ni ellir ystyried yn llawn yr effaith mesurau lliniaru sŵn (rhwystrau acwstig), felly ystyrir ei fod yn achosi effaith andwyol annerbyniol ar natur agored bresennol y Lletem Las.
3. Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno i ystyried yn llawn effaith adeilad arfaethedig yr Orsaf ar gymeriad presennol Ardal Gadwraeth Y Bala.

4. Nid oes digon o wybodaeth wedi cael ei chyflwyno i gadarnhau effaith derbyniol ar ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol Pont Mwnwgl-y-llyn (yr Hen Bont), i gyfiawnhau colli hen Fwthyn Pen-y-bont ac i gadarnhau y byddai'r effaith yn dderbyniol ar ddiddordeb archeolegol gosodiad Heneb Gofrestredig Twmpath / Tomen Castell, Castell Gronw.
5. Nid oes digon o wybodaeth wedi cael ei chyflwyno i alluogi'r Awdurdod i gadarnhau na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol yn cael ei greu ar lefelau amwynder presennol yr eiddo preswyl cyfagos, o ran sŵn a dirgryniad, o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig.
6. Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno i ystyried yn llawn effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar y Gefnffordd bresennol a'r rhwydwaith priffyrdd lleol o ran mynediad, creu traffig, tagfeydd, diogelwch cerbydau a cherddwyr.
7. Byddai'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n union dros nifer o asedau carthffosiaeth gyhoeddus a phrif gyflenwad dŵr, y mae Dŵr Cymru angen mynediad iddynt bob amser o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio. Bydd y cynnig yn gwrthdaro â'r angen i ddiogelu swyddogaeth briodol yr asedau hyn.

### **Rheswm / Rhesymau yr Adroddwyd am y Cais i'r Pwyllgor: Cynllun Dirprwyo**

Mae'r cais yn ddatblygiad 'Mawr' (o dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygiad) 2012 (a ddiwygiwyd ymhellach yn 2016) ac oherwydd ei effeithiau amgylcheddol mae hefyd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA). Mae argymhelliad y Swyddog hefyd yn groes i lythyr cefnogaeth y Cyngor Tref.

Sylwch nad yw'r cais yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad Mawr mewn perthynas â Pholisi Strategol B Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae hwn yn gategori ar wahân o Ddatblygiad Mawr ac nid yw'n berthnasol yn yr achos hwn.

### **Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA):**

Mae'r datblygiad wedi bod yn destun barn sgrinio a ddaeth i'r casgliad bod y datblygiad yn "ddatblygiad AEA". Mae Datganiad Amgylcheddol (DA) yn cydfynd â'r cais, sy'n dogfennu asesiad o'r pynciau a ganlyn:

- Sŵn
- Llwch ac Arogleuon
- Ecoleg
- Tirwedd
- Treftadaeth Ddiwylliannol

### **Dynodiadau / Cyfyngiadau Tir:**

ACA Sensitif i Ffosfforws Dalgylch: Afon Dyfrdwy  
Adeilad Rhestredig Gradd II: Pont Mwnwgl y Llyn  
Heneb Gofrestredig Castell Gronw  
Ardal Gadwraeth: Y Bala  
Tirwedd Hanesyddol 16: Y Bala a Glannau Llynnoedd Y Bala  
Cefn gwlad agored  
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid  
Safle Ramsar Llyn Tegid  
SoDdGA Llyn Tegid  
SoDdGA Afon Dyfrdwy  
Parth C1 a B NCT 15  
Lletem Las CDLIE  
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

### **Disgrifiad o'r Safle:**

Mae safle'r cais yn dechrau yng ngorsaf bresennol Pen-y-bont tua 500m i'r de o ffin anheddiad Y Bala, ac oddi yno mae'n rhedeg i'r gogledd ar draws y B4403, dros Bont Restredig Mwnwgl-y-llyn (Hen Bont), ar hyd llwybr troed gorllewinol y dref. B4391, ar draws y bont newydd ac yn cysylltu â'r arglawdd newydd hyd at y Clwb Rygbi, lle mae'n croesi Hawl Tramwy Cyhoeddus (HTC) Rhif 4 ac yn rhedeg y tu ôl i'r clwb ar yr ochr ddeheuol. Mae'n parhau ar hyd ochr ogleddol coed a gwrych terfyn y cae chwarae presennol, drwy'r gwrych i'r cae nesaf, gan groesi dros HTC Rhif 5 yn y broses. Mae'n parhau trwy gae amaethyddol arall a gwrych terfyn i mewn i ardal adeiladu'r Orsaf ar ymyl deheuol ffin yr anheddiad. Mae hwn yn wynebu Heol Aran, lle mae hen garej / adeilad cyflogaeth wedi'i ddymchwel. Mae hefyd yn rhedeg gyferbyn â ffiniau cefn eiddo preswyl Heol Aran (gogledd ddwyrain) ac adeilad y Neuadd, meysydd parcio a Rhif 6 Heol Pensarn (gogledd orllewin).



Ar hyn o bryd mae'r ardal hon wedi'i gosod ar dir prysgwydd / pori, ac fe'i cyfyngir tua chyfeiriad y de gan goed a gw rychoedd terfyn.

Fel y nodwyd uchod, mae safle'r cais yn mynd trwy nifer o ddynodiadau lefel Ewropeaidd, Cenedlaethol a Lleol. Mae Llyn Tegid wedi'i ddynodi ar lefelau rhyngwladol a chenedlaethol oherwydd ei ddiddordeb cadwraeth natur ac mae'n Wlypdir o Bwysigrwydd Rhyngwladol (Safle Ramsar), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Y nodweddion pwysig yw cynefinoedd llynnoedd, cors a ffen, planhigion prin, rhywogaethau pysgod, a'r falwen ddŵr brin. Mae Afon Dyfrdwy hefyd wedi'i dynodi'n ACA a SoDdGA oherwydd ei llystyfiant dyfrol, rhywogaethau pysgod a dyfrgwn.

Mae'r cynnig yn gyfan gwbl o fewn dalgylch ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid sy'n sensitif i ffosfforws.

Mae'r tir sy'n destun y cais wedi'i rannu rhwng nifer o dirfeddianwyr sydd wedi cael eu hysbysu gan yr ymgeiswyr fel rhan o'r broses cyflwyno cais.

### **Datblygiad Arfaethedig**

Mae'r cynnig yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol, gan ddechrau o'r de yn yr Orsaf bresennol:

#### Taflen 1A ac 1 - Gorsaf Bresennol Pen-y-bont a Phont Mwnwgl-y-llyn

Creu 2il drac ychwanegol i redeg i'r gogledd o'r orsaf bresennol, gan gysylltu ag estyniad i'r trac presennol, a fydd yn troi i'r gogledd o'r orsaf ac yn arwain allan drwy'r porth presennol a throos y B4403 tuag at Bont Mwnwgl-y-llyn ar ei ochr orllewinol.

Bydd yr adeilad allanol carreg presennol o'r enw Bwthyn Pen-y-bont Cottage, sy'n wynebu'r ffordd, yn cael ei ddymchwel. Cynigir mynedfa newydd i Fwthyn y Llyn / Lake Cottage cyfagos, ar y B4403, ymhellach i'r gorllewin na'r un bresennol, er mwyn osgoi gwrthdaro â HTC Rhif 4 a chroesfan reilffordd. Bydd y B4403 yn cael ei chodi ar gyfer y groesfan (uchafswm o 750mm). Bydd wyneb tarmac presennol y bont yn cael ei symud, bydd haen newydd sy'n dal dŵr yn cael ei gosod ac arwynebau'n cael eu hailosod wedi hynny. Bydd trac balast confensiynol yn ffurfio'r rheilffordd, gyda chyrbiau i'w hamlinellu rhwng y trac a'r llwybr troed. Yn dilyn rownd gychwynnol o ymgynghori, mae canllaw diwygiedig wedi'i gynig i ben deheuol y bont, mewn 'Corten Steel'.

Mae'r trac yn parhau â'r trefniant hwn ar hyd yr arglawdd newydd, gyda llwybr troed ar y tu mewn (dwyrain), ac yna Cefnffordd y B4391. Mae'r rhan hon o'r trac a'r llwybr troed yn cael ei ledu o led y Gefnffordd gul a'r droedffordd ar yr ochr ddwyreiniol iddi.

Bydd llwybrau palmant newydd yn cael eu gosod ar ochr orllewinol Cefnffordd y B4391 (y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol).

Mae cais Caniatâd Adeilad Rhestredig ar wahân yn cael ei ystyried ar hyn o bryd o dan gyfeirnod NP5/70/LB28 ar gyfer y gwaith arfaethedig ar yr hen bont.

#### Taflen 2 – Pont Newydd Pont Mwnwgl-y-Llyn

Dros y rhan o'r bont newydd mae llwybr troed dwyreiniol y Gefnffordd yn cael ei dynnu a'r ffordd gerbydau wedi culhau tua 1m ar y mwyaf a'i symud i'r dwyrain, er mwyn gwneud lle i'r ardal sydd wedi'i lledu ar gyfer trac yr arglawdd a'r droedffordd fewnol (wedi'i lledu i 2m). Bydd y bont ei hun yn cael ei lledu 1m. Bydd y parapet dwyreiniol yn cael ei ddymchwel a gosodir rhwystr parapet alwminiwm teneuach yn ei le.

Ar ôl croesi'r bont, caiff llwybr troed dwyreiniol y Gefnffordd ei hadfer ar hyd y gerbyttfordd wedi'i hadlinio, gan ledu'n raddol wrth iddi barhau tua'r gogledd.

#### Taflen 3 – B4391 a Chyffordd Heol Tegid

Mae'r trac yn dilyn yr arglawdd newydd ac yn hollti o'r llwybr troed mewnol, sy'n cael ei ddargyfeirio i barhau ar hyd cyffordd y Gefnffordd cyn ail-ymuno ar hyd Heol Tegid.

#### Taflen 4 – Heol Tegid i Faes Parcio Clwb Rygbi

Mae'r trac yn parhau ar hyd yr arglawdd newydd, gyda chysylltiad llwybr troed newydd i HTC Rhif 4 o Heol Tegid gyda chroesfan reilffordd.

#### Taflen 5 – Clwb Rygbi a Chaeau Chwarae

Yna mae'r trac yn rhedeg ar ochr fewnol llwybr troed yr arglawdd, y tu ôl i'r Clwb, yn wastad â'r llwybr troed sydd wedi'i gynnwys gan y wal gynnal newydd a adeiladwyd gan CNC. Mae'r cynnig yn mynd i mewn i Letem Las CDLIE ar y pwynt hwn.

Yna mae'n disgyn tuag at lefelau presennol y tir (er yn dal i godi) ar ochr ogleddol y coed terfyn a'r gwrychoedd, gan rannu'r caeau chwarae gyda'r tir amaethyddol a HTC i'r de. Bydd adeiladwaith 'dim cloddio' a gwe gell yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y trac ar hyd y rhan hon i warchod y coed a'r gwrychoedd presennol.

### Taflen 6 – Caeau Chwarae

Cynigir lleoli y cyntaf o adeiladau'r orsaf newydd yn fan hyn, sy'n cynnwys y Locomotif Shed, ei 2il drac dŵr ffo cysylltiedig a slab concrit o'r un hyd.

Bydd y Sied Locomotif yn cynnwys adeilad ffrâm borth, gyda tho ar oleddf, wedi'i orffen mewn Cladin Dur rhychiog siarcol, gyda goleuadau awyr tryloyw a drysau ffrâm alwminiwm crog ochrol ar bob pen. Bydd adeiladwaith 'dim cloddio' a gwe gell yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y traciau ar hyd y rhan hon i warchod y coed presennol.

Mae'r ddau drac yn parhau tua'r gorllewin wedi hynny, gan fynd trwy'r ffin gogledd orllewinol y cae chwarae (gwrych lefel isel gyda choed). Mae angen croesfan reilffordd arall dros HTC Rhif 5, a fydd hefyd yn galluogi mynediad i gerbydau i'r cae amaethyddol i'r de.

### Taflen 7 – Adeilad yr Orsaf a datblygiadau cysylltiedig

Mae'r ddau drac yn arwain i mewn i ardal adeilad yr Orsaf, yn gyntaf gan basio bynker glo newydd, trac rheilffordd gwasanaeth a mynediad i gerbydau, sy'n rhedeg gerllaw HTC Rhif 5 ac i'r de o 3 eiddo preswyl cyfagos (9-11 Ystâd Cae Bach).

I'r de, cynigir caban signalau newydd gyda gwrych brodorol newydd i ffurfio ffin ddeheuol newydd i'r safle. Mae'r Caban Signal yn adeilad cymedrol ar ffurf syml, gyda tho brig llechi, drychiadau brics, gyda grisiau allanol i lefel llawr uwch, gyda ffenestri pren ar y blaen (gogledd) a'r drychiadau ochr.

Mae'r traciau'n parhau tua'r gogledd orllewin, trwy wrych terfyn y cae presennol (sydd i'w dynnu ymaith) ac i mewn i ardal yr Orsaf. O fewn yr ardal hon, nid yw'r safle bellach o fewn y Lletem Las, ond mae bellach yn dod i mewn i Ardal Gadwraeth y Bala.

Ar hyd y ffin ddeheuol, cynigir sied gerbydau gyda thair llinell yn gwasanaethu (2 o fewn y sied ac 1 y tu allan i'r de). Bydd hyn yn dilyn cynllun y sied Locomotif, er ei fod yn 53m o hyd. Bydd ffin bresennol y gwrych gyda choed i'r de yn cael ei gadw.

Bydd y sied gerbydau yn wynebu Platfform 2 i'r gogledd (89m o hyd), ac yna Platfform 1 ar draws y 2 linell, ac yna adeilad yr Orsaf.

Bydd Adeilad yr Orsaf yn wynebu Heol Aran (wedi'i osod yn ôl o'r llinell adeiladu) gyda tho talcennog deulawr a blaen addurniadol a chymesur iawn, gyda thalcan canolog a chloc y dref, ffenestri pren bwa 8 cwarel o dan bennau briciau 'voissoire' gyda cherrig clo, y brif fynedfa ganolog gyda drysau panel pren wedi'u hongian ar yr ochr, gydag ardal pilastrog yn y blaen, pibellau draenio haearn bwrw, cornisiau brics addurnol a tho llechi. Mae'r ffryntiad hwn yn disgyn i adran gefn unllawr ar oleddf triphlyg, sy'n cefnu ar Blatfform 1. Mae'r rhan hon yn fwy cyfoes, gan barhau â thema allanol cladin siarcol y Locomotifau a'r Siediau Cerbydau, er bod ganddo agoriadau gwydrog ffrâm alwminiwm ar Blatfform 1 ac i'r ochr . ardal fwyta/caffi allanol (dwyrain). Bwriedir gosod paneli solar ar y to ar yr awyren ddwyreiniol hon. Mae'r drychiad gorllewinol yn cynnwys drysau gwasanaeth, ffenestri a goleuadau awyr.

Yn fewnol, cynigir swyddfa docynnau ar y llawr gwaelod, man manwerthu, caffi (gyda seddau allanol) i'r dwyrain, ardal swyddfa a thoiledau cyhoeddus i'r gorllewin. Ar y llawr cyntaf, cynigir gofod swyddfa ychwanegol.

I'r gorllewin o adeilad yr Orsaf, mae'r safle'n mynd yn ôl i mewn i'r Lletem Las sy'n lapio o amgylch y ffin ddeheuol i gysylltu â gerddi cefn eiddo Heol Aran. Yn yr ardal hon, cynigir mynediad i gerbydau o Heol Aran, gan arwain at 22 o leoedd parcio ceir, 5 lle i bobl anabl. Mae llwybr troed newydd yn rhedeg tua'r gorllewin o Blatfform 1, gyda man picnic wedi'i gynnig yng nghornel de orllewin y safle.

Mae ardal y safle yn cynnwys y rhan isaf o faes parcio cyhoeddus Heol y Plase i'r gogledd o'r Orsaf, lle bwriedir ad-drefnu'r trefniadau parcio presennol i ddarparu 3 man parcio bysiau gyferbyn â'r toiledau cyhoeddus.

O ran y cyfyngiadau ffosffad presennol yn yr ardal, er y cynigiwyd yn wreiddiol i gysylltu â'r brif garthffos, yn dilyn gwrthwynebiadau, archwiliwyd yr opsiwn o Bwll Carth dros dro i wasanaethu adeilad yr Orsaf. Ar ôl ystyriaeth briodol canfuwyd bod hyn hefyd yn annerbyniol o dan bolisi cenedlaethol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Cynigiwyd yn ddiweddar yn awr i ohirio'r defnydd o'r elfen caffi a thoiledau cyhoeddus, hyd nes y bydd gan y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Drwydded Ffosffad (trwy amod cynllunio). Ystyrir hyn yn fanylach isod ac fe'i cymerir fel sail ar gyfer asesu.

#### Adeiladu.

Cynigir yr un prif gompownd adeiladu dros dro ag a gymeradwywyd ar gyfer gwaith arglawdd presennol CNC, sy'n ffurfio rhan o gae amaethyddol sydd wedi'i leoli rhwng Heol Tegid a'r B4391.

#### Dogfennaeth ategol -

Cefnogir y cais gan amrywiaeth o adroddiadau ac asesiadau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r hyn a ganlyn) -

- Datganiad Amgylcheddol ac Atodiadau yn ymdrin â Sŵn, Llŵch ac Arogleuon, Ecoleg, Tirwedd a Phynciau Treftadaeth Ddiwylliannol.
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol.
- Adroddiad Ymgynghori Cyn Cyflwyno Cais.
- Adroddiad Effaith Economaidd.
- Datganiad Dylunio a Mynediad.
- Datganiad Cynllunio.
- Gwerthusiad Cymeriad Tirwedd.
- Datganiad Coedyddiaeth.
- Datganiad Trafnidiaeth.
- Adroddiad Effaith Traffig.
- Adroddiad Cynhyrchu Trip.
- Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu.
- Cynllun Rheoli Amgylchedd Gweithredol
- Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad Llygredd.
- Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth.
- Strategaeth Ddraenio.
- Asesiadau Effaith Treftadaeth.
- Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig Archeolegol ac Adroddiad Arolwg.
- Asesiad Effaith Ieithyddol Cymunedol.
- Asesiad Canlyniad Llifogydd.
- Adroddiad Strwythurol Pont Mwnwgl-y-llyn.

### **Polisiâu a Deddfwriaeth Cynllunio Berthnasol:**

Rheoliadau Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd 2017.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040:

- 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig
- 5 – Cefnogi economi wledig
- 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Gol 11) 2021 a Nodiadau Cyngor Technegol (NCT)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031:

- SP A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiad Cynaliadwy
- SP: C Strategaeth Datblygu Gofodol
- DP 1: Cyffredinol Datblygiad Egwyddorion
- SP: Ch: Seilwaith Cymdeithasol a Ffisegol mewn datblygiadau newydd
- SP D: Yr Amgylchedd Naturiol
- DP 2: Datblygu a'r Dirwedd
- SP Dd Newid Hinsawdd
- DP 5 Mannau Agored a Lletemau Glas
- SP Ff: Amgylchedd Hanesyddol
- DP:6 Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy
- DP7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol
- DP8: Gwarchod Safleoedd Heb eu Dynodi
- DP18: Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau
- SP H: Economi Wledig Gynaliadwy
- DP 19: Datblygiad Cyflogaeth a Hyfforddiant Newydd
- SP I: Twristiaeth
- DP 21: Twristiaeth a Hamdden
- DP 24: Manwerthu
- SP L: Hygyrchedd a Chludiant
- DP 25: Parcio Ceir i Ymwelwyr

## Canllawiau Cynllunio Atodol:

- CCA 1: Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru
- CCA 2: Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol
- CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
- CCA5: Ymrwymadau Cynllunio
- CCA 6 – Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth
- CCA 12: Galluogi Datblygiad Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru
- CCA 13: Aseiad o Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd
- CCA 14: Goleuadau Ymwthiol (Llygredd Golau)

## Ymgynghoriadau :

<p>Cyngor Tref y Bala</p>	<p>Ymatebion a dderbyniwyd ar 20/1/22 ac 8/11/22 – Cefnogi. Ond gan nodi pryderon ynghylch uchder a deunydd y ffens a gwelededd y llyn, hyd ac uchder y sied gerbydau, mwy o bwysau traffig, parcio a mynediad i drigolion, capasiti seilwaith ar gyfer cynnydd yn nifer y twristiaid, effaith ar yr iaith Gymraeg a diwylliant lleol, rhagdybir y byddai busnesau eraill y Bala a Stryd Fawr yn elwa'n economaidd.</p> <p>03/03/2023 - Cefnogaeth. Siomedig o ddeall bydd y cais yn cael ei argymhell i'w wrthod, yn dilyn cynnydd y cais am tua 9 mlynedd a'r ymgeiswyr yn ymateb i geisiadau'r Awdurdod. Siom yn y broses hir a llafurus a'r golled i economi'r dref os gwrthodir y cais a datgan eu cefnogaeth lawn unwaith eto.</p>
<p>Cyngor Cymuned Llangywer</p>	<p>20/01/22 a 8/11/22 – Gwrthwynebu O ran diogelwch priffyrdd a cherddwyr, llai o barcio, effaith ar drigolion heb unrhyw fudd a'r effaith ar Bont Mwnwgl-y-llyn.</p> <p>08/03/23 - Cefnogi. Mae tagfeydd traffig a chau ffyrdd ar adegau prysur yr haf yn bryder mawr i drigolion. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor lle bu'r ymgeisydd yn bresennol ac atebodd gwestiynau manwl ar faterion priffyrdd ac effeithiau ar y bont. Ar ôl i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, cytunodd y Cynghorwyr fod eu pryderon am rwystr traffig y trê'n wedi'u lleddfu, oherwydd y newid tebygol i'r B4403 sy'n cael ei ddynodi'n Clirffordd a'r sicrwydd na fydd oedi hir wrth i'r Trê'n groesi.</p>
<p>Cyngor Cymuned Llanuwchllyn</p>	<p>07/01/22 – Dim ond yn deg caniatáu amser i Bartneriaeth Penllyn gomisiynu ac ystyried astudiaeth ar effaith twristiaeth a gofynnir i'r Awdurdod ohirio gwneud penderfyniad tan hynny.</p> <p>30/01/23 – Gofynnwyd i'r Awdurdod oedi cyn penderfynu a gofynnwyd am weld data effaith priffyrdd a thraffig annibynnol. Gofynnwyd i APCE asesu effaith twristiaeth ac i'r Cyngor Cymuned gyfrannu at y briff neu aros i'r Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy i gael ei fabwysiadu, asesiad o effaith y cynllun hwn i'w fwydo iddo a chynnwys yr iaith Gymraeg, diwylliant</p>

	<p>Tegid. Nodir y rhesymeg a ddarparwyd mewn perthynas â dŵr golchi. Ar yr amod mai'r bwriad yw cael gwared ar yr elifiant drwy'r brif garthffos (yn amodol ar ddatrys y materion Ffosfforws), rydym yn ystyried hyn yn dderbyniol.</p> <p>Llifogydd – gwybodaeth ychwanegol yn dderbyniol yn amodol ar ddefnyddio pibellau mwy.</p>
<p>Ecoleg APCE – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.</p>	<p>06/03/2023 – Gwrthwynebu. Mae'r ARhC cysgodol yn annigonol gyda diffygion sylweddol i ystyried yn llawn yr effaith ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd ac felly, ni all yr Awdurdod roi caniatâd dan Reoliad 63 (5) o'r Rheoliadau Cynefinoedd.</p> <p>10/03/23 – Gwrthwynebu (yn dilyn awgrym diwygiedig i ohirio darparu toiledau a chaffis) Disgwylir i nifer yr ymwelwyr wneud hynny aros yr un fath ac felly gellid disgwyl gwneud defnydd o'r cyfleusterau presennol. O ganlyniad, rwyf o'r farn y byddai'r llygredd ffosffad yn parhau ac o ystyried y diffyg capasiti yn y GTDG, mae'n ymddangos bod y bygythiad llygredd hefyd yn parhau (heb ei liniaru). Yn wir, gallai'r bygythiad o lygredd gynyddu dros y carthbwill sydd bellach wedi'i adael. Roedd yr un dogfennau yn darparu gwrthbrofion ynghylch y bygythiad a achosir gan reoli dŵr golchi. Rwyf wedi ystyried hyn ond nid wyf yn credu bod hyn yn cael ei oresgyn y pryderon a fynegwyd yn flaenorol.</p>
<p>Ecoleg APCE - Bioamrywiaeth</p>	<p>20/03/2023. Ni ddarparwyd digon o wybodaeth am fesurau lliniaru a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas ag Ystlumod, Adar a manylion plannu gwrychoedd. Cytuno gyda CNC mewn perthynas â CEMP a PIRP i fod yn ofynnol trwy amod cynllunio pe bai caniatâd yn cael ei roi.</p>
<p>Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd</p>	<p>20/01/2022. Mynegwyd pryderon am effaith sŵn, agosrwydd eiddo cyfagos ac ychydig o fesurau lliniaru arfaethedig. Angen tystiolaeth i gefnogi honiadau effaith dirgryniad. Argymhellir oriau adeiladu eraill ynghyd â chanllawiau arfer gorau. Mae angen manylion ar beiriannau sefydlog ac echdynnu awyru ac asesiad sŵn ychwanegol.</p>



	gweithredu a monitro trwy amod cynllunio pe bai caniatâd yn cael ei roi.
--	--

### **Ymateb i Gyhoeddusrwydd:**

Mae'r cais wedi cael cyhoeddusrwydd trwy gyfrwng Hysbysiad Cyhoeddus yn y Cambrian News ar 13 Rhagfyr 2021, hysbyswyd cymdogion gosodwyd llythyrau a nifer o hysbysiadau safle ar wahanol fannau ar hyd llwybr y cais.

Yn ogystal, fel 'Datblygiad Mawr' mae'r cais wedi bod yn destun proses ymgynghori Cyn Cyflwyno Cais ac mae adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn gyda'r cais.

Derbyniwyd cyfanswm o 12 o sylwadau gan 9 o gynrychiolwyr, gan gynnwys asesiad annibynnol o'r cais a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Penllyn.

Mae un llythyr o gefnogaeth yn codi'r hyn a ganlyn:

- Rydym yn byw yn Llanuwchllyn, drws nesaf i 'Bwch yn Uchaf,' ger yr orsaf drenau, prin y byddwn yn sylwi ar y trêen erbyn hyn, wrth i rywun ddod i arfer â phethau yno ynghyd â'r niferoedd cynyddol yn ystod y gwyliau, sy'n waraidd. Mae sŵn y stêm yn y cefndir yn ddigon dymunol, a phan ddaw i arogl mwg, anaml y mae hynny'n amlwg ychwaith. Mae'r rheilffordd yn dod â manteision cyflogaeth i bobl ifanc gan gynnwys ein meibion, i'w gwella gan y cynnig. Mae ein teulu yn cefnogi'r cynnig.

Mae gweddill y cynrychiolaethau yn codi pryderon mewn perthynas â'r canlynol:

- Colli preifatrwydd i breswylwyr.
- Effaith sŵn ar drigolion o ran agosrwydd y trac a'r adeiladau a'r nifer o ymwelwyr a ragwelir.
- Effaith cynnydd mewn traffig o ran parcio annigonol, mwy o dagfeydd a hygyrchedd i eiddo preswyl.
- Mwy o sbwriel.
- Colli golau dydd i drigolion.
- Effaith ar ddŵr daear a draeniad.
- Ni chynhaliwyd ymgynghoriadau â'r trigolion diweddaraf ers yr ymarfer ymgynghori blaenorol.
- Asesiad Effaith Treftadaeth – Bwthyn Pen-y-bont – llun anghywir o The Boathouse nid y Bwthyn.

- Mae trenau stêm yn ddrewllyd, yn fudr, yn aneffeithlon, yn niweidiol i'r amgylchedd a gallent achosi problemau iechyd i drigolion.
- Effaith andwyol ar gymeriad, edrychiad a harddwch naturiol yr ardal.
- Materion cynhwysedd carthffosiaeth.
- Materion llifogydd yn yr ardal.
- Mae datblygiad yn gofyn am Brynu Gorfodol fy nhir, gan gynnwys dymchwel fy eiddo heb fy nghefnogaeth. Mae hwn yn ddefnydd amhriodol o'r ddeddfwriaeth.
- Mae'r cynnig yn rhoi blaenoriaeth i gyllid dros ddiogelwch y cyhoedd.
- Dim budd treftadaeth gwirioneddol o'r cynnig nac i wasanaeth cyhoeddus.
- Croesfannau rheilffordd heb giatiau a materion diogelwch ffyrdd cyffredinol a cherddwyr.
- Mae Adroddiad Effaith Economaidd ac amcangyfrif o niferoedd ymwelwyr yn annibynadwy ac mae angen iddynt fod yn fwy cynhwysfawr.
- Bydd y caffi yn annog pobl i beidio â dod i mewn i'r dref.
- Mae'r ardal eisoes o dan bwysau twristiaeth cynyddol a thagfeydd, gydag effeithiau ar lety, y farchnad dai.
- Mae economi sy'n ddibynnol ar dwristiaeth yn creu effeithiau negyddol o ran ei gallu i gefnogi teuluoedd lleol, diogelu cysylltedd pobl ag ardaloedd lleol, gwarchod trwch poblogaeth a'r diwylliant lleol a'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal.
- A oes cyllid priodol ar gyfer pob elfen o'r cynnig?
- Nid yw'r cais yn nodi unrhyw weithgarwch masnachol na diwydiant, ond a yw hyn yn cynnwys adeiladu'r Orsaf, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau?

Mae un llythyr yn dweud yn syml mai cred yr awdur yw bod y tir yn eiddo i deulu Meredith yn unig.

## 1 Asesiad:

### Egwyddor Datblygu

- 1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn datgan fod defnyddiau tir economaidd yn cynnwys defnyddiau cyflogaeth traddodiadol megis swyddfeydd a diwydiant, ond hefyd defnyddiau megis manwerthu a thwristiaeth . Mae'n cyfeirio safleoedd newydd at ffiniau aneddiadau diffiniedig neu gerllaw iddynt, tra'n cydnabod y gallai fod gan rai diwydiannau ofynion tir penodol na ellir eu cynnwys o fewn aneddiadau, gan argymhell polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf o fewn CDLlau i

ystyried datblygiadau o'r fath (para 5.4.2 a 5.6.6). Mae'n cydnabod rôl bwysig twristiaeth i'r economi wledig leol, gan nodi rheilffyrdd a dyfrffyrdd segur fel cyfleusterau twristiaeth a hamdden pwysig (para 5.5.4).

- 1.2 Ar lefel y CDLI, mae'r polisiau allweddol i'w hystyried yn hyn o beth yn cynnwys CDLIE SP A *Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiad Cynaliadwy*, sy'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau 'Nodweddion Arbennig' yr ardal, SP C *Strategaeth Datblygu Gofodol*, sy'n ceisio cefnogi cyfleoedd cyflogaeth presennol a/neu newydd o fewn economi wledig Y Bala a'i chryfhau fel cyrchfan i ymwelwyr, SP H *Economi Wledig Gynaliadwy*, sy'n cefnogi datblygiad cyflogaeth newydd a thwristiaeth (lle bo'n briodol) a SP I *Twristiaeth a DP 21 Twristiaeth a Hamdden*, sy'n ceisio cefnogi 'Twristiaeth Gynaliadwy', a ddiffinnir fel:

*'Unrhyw fath o ddatblygiad, rheolaeth neu weithgaredd twristiaeth sy'n sicrhau gwarchodaeth a chadwraeth tymor hir adnoddau naturiol, diwylliannol a chymdeithasol ac sy'n cyfrannu mewn modd positif a theg at ddatblygiad economaidd a llesiant unigolion sy'n byw, yn gweithio neu'n aros mewn ardaloedd a warchodir' (CDLIE para 6.33).*

- 1.3 Mae'r cynnig yn cynnwys ymestyn atyniad hamdden a thwristiaeth presennol, gan geisio gwella'r cynnig a dymunoldeb rheilffordd Llyn Tegid i gwsmeriaid presennol a newydd. Byddai buddion economaidd cysylltiedig i gymuned ehangach Y Bala a'r Ganolfan Gwasanaethau Lleol yn cael eu darparu, sy'n cael eu mesur o fewn y cais. Er ei fod wedi'i leoli yng nghefn gwlad agored ar y cyfan, (ac eithrio ffryntiad adeilad arfaethedig yr Orsaf o fewn ffin anheddiad y Bala) o ystyried natur bresennol yr atyniad, ei fanteision economaidd datganedig a'r potensial i ddiogelu'r amgylchedd, gellid ystyried bod y cynnig yn dderbyniol o ran egwyddor, fel ffurf o 'Dwristiaeth Gynaliadwy', at ddibenion polisi CDLIE. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar ystyriaeth fanylach fel yr amlinellir isod.

## **2 Asesiad Cynllunio**

- 2.1 Mae'r prif faterion i'w hystyried wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Effaith ar yr economi leol, Canolfan Gwasanaethau Lleol Y Bala ac Ardal Manwerthu.
- Ystyried Safleoedd Amgen.

- Effaith ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid a Safle Ramsar Llyn Tegid.
- Effaith ar fuddiannau Ecoleg a Bioamrywiaeth eraill.
- Datblygiad o fewn Lletem Las.
- Effaith ar yr Amgylchedd Hanesyddol a Threftadaeth Ddiwylliannol.
- Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol.
- Amwynder Cyfagos.
- Effaith ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- Capasiti a Diogelwch Priffyrdd.
- Perygl Llifogydd.
- Isadeiledd Draenio.
- Yr Iaith Gymraeg.

### Effaith ar yr economi leol a Chanolfan Gwasanaethau Lleol ac Ardal Manwerthu Y Bala

2.2 Cefnogir y cais gan Adroddiad Asesiad Effaith Economaidd, a gynhaliwyd yn wreiddiol yn 2015-16 gan ddilyn canllawiau'r Llyfr Gwyrdd ac a ddiweddarwyd wedi hynny yn 2021 i roi cyfrif am effeithiau Covid-19. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg byr o'r ardal, disgrifiad o'r rheilffordd bresennol a'i hanes. Mae'n nodi dyhead hirdymor i ymestyn y rheilffordd i'r Bala ei hun. Rhestrir y rhesymau dros y cynnig fel a ganlyn:

- gwella hygyrchedd i'r dref gan nodi diffyg mwynderau a phellter o'r derfynfa bresennol.
- i wella rhan o'r dref nad yw'n cael ei defnyddio'n ddigonol, wedi'i difetha gan adeiladau adfeiliedig.
- i leddfu problemau parcio yng ngorsaf Pen-y-bont, er mwyn gwella amwynder gweledol y llwybr i deithwyr.
- darparu buddion economaidd i'r gweithredwr, lleoliad derbynnydd a noddwyr y gwasanaeth.
- helpu'r economi dwristiaeth leol i adfer o effeithiau Covid-19, gyda buddsoddiad uniongyrchol.

2.3 Tra'n nodi ei gyfyngiadau, mae'r Adroddiad yn dogfennu canfyddiadau arolwg sampl ar hap o bobl sy'n defnyddio'r rheilffordd yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfod grŵp ffocws gyda busnesau lleol hefyd. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar feincnodau a oedd ar gael o'r gwaith effaith blaenorol a nodwyd. Bu'r arolwg yn archwilio gwreiddiau

pobl, eu barn am y rheilffordd a hygyrchedd gwasanaethau a busnesau'r Bala.

- 2.4 Yn dilyn gwariant amcangyfrifedig ar adeiladu a gweithredu, sy'n gwahanu gwariant lleol a gwariant nad yw'n lleol, daw'r adroddiad i'r casgliad:

*Mae'r asesiad effaith economaidd hwn yn rhagweld y byddai gwerth y datblygiad hwn yn lleol yn agos i £1.4m ac 20 swydd un flwyddyn CALI ynghyd â 18 o swyddi eraill yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod adeiladu a chynnydd o £420k o wariant lleol y flwyddyn drwy gynnydd net rhagamcanol o tua 29k o ymwelwyr i'r ardal - byddai'r cynnydd cydredol mewn GYG yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig o 4 swydd barhaol yn yr ardal. Ymddengys bod hyn yn darparu Enillion ar Fuddsoddiad (EaB) rhesymol iawn ar gyfer y prosiect; ar y lefel hon byddai'n talu amdano'i hun yn nhermau gwariant o fewn 10 mlynedd. Mae hefyd yn dilyn y rhagwelir y bydd cyfanswm nifer yr ymwelwyr blyneddol yn 55k gydag amcangyfrif o gyfraniad gwariant o dros £1.1m a chredir y byddai o leiaf hanner ohono i'w briodoli'n uniongyrchol i 'BLR' yn dilyn gweithredu'r prosiect. Byddai amcangyfrif ceidwadol yn nodi y byddai'r gweithrediadau ôl-brosiect yn cefnogi 12 swydd CALI yn ardal y Bala14. Ar sail yr amcangyfrifon hyn yna am bob £1 a werir ar y rheilffordd byddai o leiaf £1.90 pellach yn cael ei wario yn y gymuned. At hynny, cyfraniad mawr y datblygiad fyddai gwella apêl yr ardal gyfan a allai, ymhlith pethau eraill:*

- Caniatáu i'r dref ddatblygu cyfleusterau hamdden allweddol eraill (ee llwybr llyn ac ati)
- Helpu i ymestyn y tymor y tu hwnt i'r lefelau presennol
- Creu apêl llawer ehangach i'r rhai methodig neu anabl fwynhau hyfrydwch y llyn heb ofni damweiniau na gorfod mynd i mewn i'r dref / orsaf a all fod yn anodd.
- Creu cyswllt llawer mwy argyhoeddiadol i'r dref (ac yn wir llwybrau a llwybr ffyrdd eraill).

66	NP5/54/ENFLB33M	Ionawr 2020	Nannau Hall, Llanfachreth	Cyflwr yr adeilad	<p>Mae wedi cael ei ddwyn i sylw'r Awdurdod bod y plwm o do'r adeilad wedi'i dynnu a bod cyflwr cyffredinol yr adeilad yn dirywio'n gyflym.</p> <p>Er gwaethaf cysylltu â'r perchennog ynglŷn â'r cyflwr sy'n gwaethygu, nid oes unrhyw waith atgyweirio wedi'i wneud ac mae cyflwr yr adeilad yn parhau i ddirywio.</p> <p>Mae arolygiadau allanol a mewnol bellach wedi'u cynnal. Mewn trafodaeth ar hyn o bryd ag ymgynghorwyr cadwraeth/arbenigwyr toi mewn perthynas â'r math o waith sydd ei angen a fydd yn diogelu cyfanrwydd yr adeilad.</p> <p>Mae Plas Nannau wedi ei osod ar Gyngor Gwynedd Rhestr flaenoriaeth grŵp Rheoli Eiddo Gwag.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2022, cynhaliwyd cyfarfod safle gyda chontractwr toi cadwraeth i ddarparu asesiad o ba waith sydd ei angen ar unwaith i atal rhagor o ddŵr rhag mynd i mewn i'r adeilad ac i ddarparu canllawiau ynghylch faint y gallai'r gwaith hwn ei gostio.</p>	<p>Ym mis Rhagfyr 2022, cynhaliwyd cyfarfod safle gyda chontractwr toi cadwraeth i ddarparu asesiad o ba waith sydd ei angen ar unwaith i atal rhagor o ddŵr rhag mynd i mewn i'r adeilad ac i ddarparu canllawiau ynghylch faint y gallai'r gwaith hwn ei gostio.</p> <p>Yn yr Hydref cyhoeddodd CADW Grant Adeiladau Hanesyddol ar gyfer gwaith brys ar adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, gyda'r grant ar gael i ACLlau i gynorthwyo gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi Hysbysiadau Gwaith Brys perthnasol.</li> <li>• Gwaith wedi'i wneud yn ddiodyn.</li> <li>• Cyllid posibl i dalu costau cyflwyno rhybuddion statudol eraill megis Hysbysiadau Adran 215</li> </ul>
----	-----------------	-------------	------------------------------	-------------------	--	---

						<p>Tra bod adeiladau rhestredig eraill mewn perygl o fewn y Parc Cenedlaethol, o ystyried statws gradd II* Nannau a'i fod o fewn Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, ei amlygrwydd yn y dirwedd a'r dirywiad sylweddol a chyflym oherwydd colli'r plwm o'r safle. to, mae'r Awdurdod wedi gwneud cais datgan diddordeb i CADW mewn perthynas â'r grant hwn. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno unrhyw ddiddordeb oedd 23 Rhagfyr 2022 ac mae'r Awdurdod yn aros am ymateb i hyn ar hyn o bryd.</p> <p>Os bydd yr Awdurdod yn llwyddiannus yn yr asesiad cychwynnol, yna bydd angen cyflwyno rhagor o fanylion i CADW cyn cyhoeddi unrhyw benderfyniad ynghylch a fydd cyllid yn cael ei ddarparu.</p>
--	--	--	--	--	--	--



67	NP5/54/ENFLB210D	Rhagfyr 2022	Caerynwch, Brithdir, Dolgellau LL40 2RF	Gwaith di- awdurdod ar adeiladau cwrtill Adeilad Rhestredig	Cysylltwyd â'r perchennog ac mae cyfarfod safle wedi'i drefnu.	Cynhaliwyd cyfarfod safle ac ar hyn o bryd yn adolygu'r gwaith d- awdurdod yr ymddengys ei fod wedi'i wneud.
68	NP5/57/ENFLB341A	Rhagfyr 2022	Bryn House, Cader Road, Dolgellau LL40 1RS	Newidiadau i ffnestri adeilad rhestredig	Cysylltwyd â'r perchennog ac mae cyfarfod safle wedi'i drefnu.	Cynhaliwyd cyfarfod safle a thrafodaethau. Perchennog i gyflwyno cais CARh
69	NP5/57/ENFLB470C	Ionawr 2021	4 Maes Caled, Dolgellau, LL40 1UF	Gwaith allanol a mewnol di- awdurdod ar yr adeilad	Cynhaliwyd ymweliad safle lle cadarnhawyd bod gwaith di-awdurdod wedi'i wneud.	Trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r perchennog a'r asiant i gywiro materion. Aros am ymateb.
70	NP5/66/ENFLB32D	Tachwedd 2020	Ty Mawr, Llanfair	Gwaith mewnol yn cael ei wneud	Llythyr wedi ei anfon i'r eiddo. Ymateb wedi ei dderbyn a trafodwyd y gwaith gyda'r perchennog. Ymweliad safle i'w gynnal. Ymweliad safle wedi ei gynnal. Cais wedi ei gyflwyno ond yn annilys.	Cynhelir deialog gyda'r asiant/ymgeisydd mewn perthynas a'r cais annilys a gyflwynwyd.
71	NP5/69/ENFLB326A	Medi 2018	Tŷ Gwyn, Llwyngwril	Newidiadau allanol a mewnol i adeilad rhestredig.	Cysylltir a'r asiant i weld a fydd cais am ganiatâd adeilad rhestredig yn cael ei gyflwyno.	Dim diweddariad pellach i'r pwyllgor hwn.
72	NP5/73/ENFLB280A	Ebrill 2022	Ysgubor Hen, Tan y Bwlch, Maentwrog	Gwaith allanol ar ddormerau'r adeilad rhestredig	Cynhelir deialog gyda'r perchennog ynghylch cyflwyno cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.	Aros i gais am CARh i gael ei gyflwyno.

73	NP5/77/ENFLB60H	Hydref 2022	Gwesty Maes y Neuadd, Talsarnau	Gwaith yn cael ei gyflawni	Cynhaliwyd ymweliad safle a chafwyd trafodaethau gyda'r perchennog.	Aros i gais am ganiatâd Adeilad Rhestredig i gael ei gyflwyno.
74	NP5/78/ENFLB55	Chwefror 2023	Tyddyn Mawr, Bronaber, Trawsfynydd	Gwaith sylweddol wedi'i wneud i'r talcen.	Ymweliad safle wedi ei gynnal.	Cynhelir deialog gyda'r perchennog a CADW am y ffordd ymlaen i unioni'r sefyllfa.





**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD  
19 EBRILL 2023**

**CYTUNDEBAU ADRAN 106**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 19 APRIL 2023**

**CYTUNDEBAU ADRAN 106**

<b>Rhif</b>	<b>Rhif y cais</b>	<b>Dyddiad y daeth y cais i law</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Datblygiad</b>	<b>Y Sefyllfa Ddiweddaraf</b>
1.	NP2/16/451B	18/12/2022	Tir ger Pen-y-Bryn, Penmorfa. LL49 9SB	Adeiladu un tŷ deulawr fforddiadwy, meddiannaeth leol, creu mynedfa newydd i gerbydau a thirlunio cysylltiedig	Drafft gyda'r ymgeisydd i'w ystyried
2.	NP3/12/12G	04/04/2022	Plas-y-Nant, Betws Garmon. LL54 7YR	Newid defnydd o westy (Dosbarth Defnydd C1) i breswyl (Dosbarth Defnydd C3) a codi estyniad deulawr	Gyda chyfreithwyr APCE yn llunio drafft
3.	NP4/11/337D	23/07/2022	Hendre Farm, Betws y Coed, LL24 0BN	Adeiladu tŷ fforddiadwy newydd a gosod gwarediad dŵr budr cysylltiedig	Disgwyl manylion perthnasol gan yr ymgeisydd i ddechrau drafftio.
4.	NP4/11/398	07/07/2021	Tir ger y Feddygfa, Betws-y-Coed.	Codi 5 tŷ deulawr fforddiadwy gyda thirlunio cysylltiol, mynedfa a llefydd parcio	Gyda cyfreithiwr i'w arwyddo
5.	NP5/55/L140E	03/06/2021	Capel Bethlehem, Brynchrug. LL36 9PW	Newid defnydd capel i ffurfio un annedd 1 lloft ac un annedd 6 lloft	Drafft wedi ei yrru i'r ymgeisydd
6.	NP5/61/632	12/03/2021	Merthyr Isaf, Hwylfa'r Nant, Harlech. LL46 2UE	Datblygiad preswyl saith uned 2 fforddiadwy a 5 marchnad agored yn cynnwys tri phar o dai un talcen ac un ty ar wahan, creu mynedfa cerbydau newydd a thirlunio cysylltiol	Cytundeb yn cael ei arwyddo
7.	NP5/65/2B	04/03/2021	Beudy Uchaf Hirgwm, Maes y Clawdd, Bontddu. LL40 2UR	Trosi ysgubor yn annedd a gwaith cysylltiol gan gynnwys gosod tanc septig a arallgyfeirio llwybr cyhoeddus	Manylion wedi ei yrru i'r cyfreithiwr i ddrafftio cytundeb.  Gofynnwyd am ddiweddariad 11.01.2023.



8.	NP5/65/L302D	25.08.2020	Wern y Pistyll, Bontddu	Trosi ysgubor a'i ymestun yn annedd gan gynnwys gosod tanc septig, caniatad ol-weithredol ar fyfer trac mynediad a gwaith peirianyddol i greu llain caled/ man parcio o gwmpas yr adeilad, gosod carafan statig dros dro a adeiladu clwydfan ystlumod.	Disgwyl manylion cyfreithiwr gan yr ymgeiswyr.  Anfonwyd nodyn atgoffa 11.01.2023
9.	NP5/72/25H	25/02/2022	Gwern-y-Genau, Arenig, Bala.	Trosi canolfan gweithgareddau awyr agored i dŷ	Disgwyl manylion y Gofrestra Tir gan yr ymgeisydd

Nifer o geisiadau ar restr Pwyllgor 08 Mawrth 2023 = 8

**CEISIADAU SY’N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 A SYDD WEDI EU CWBLHAU ERS  
PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD  
08 MAWRTH 2023**

Rhif y cais	Lleoliad	Datblygiad
NP5/70/146A	Moel-y-Ddinas, Rhosygwaliau.	Trosi ac ail adeiladu tŷ blaenorol yn dŷ fforddai dwy angnehion lleol ynghyd a ffurfioli'r fynedfa gerbyd

**CEISIADAU SY’N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 SYDD WEDI EU GWRTHOD, TYNNU’N ÔL, NEU WEDI EU  
GWAREDU, NEU LLE NAD OES ANGEN CYTUNDEB PELLACH ERS PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD  
08 MAWRTH 2023**

Rhif y cais	Lleoliad	Datblygiad



**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD  
19 EBRILL 2023**

**CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD  
ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY**



## AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

### PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 19 EBRILL 2023 CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY

#### Mewn Trafodaeth Gyda'r Asiant / Ymgeisydd

NP5/58/363H	04/10/21	Nant Eos, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX	Trosi i dy marchnad agored a gosod gwaith trîn carthion (Ail-gais)
NP5/61/T558D	19/04/21	Cyn Gapel Tabernacl, Stryd Fawr, Harlech. LL46 2YB	Trosi'r hen arddangosle ceir a'r siop partiau ceir ar y llawr isaf yn siop gyfleus ar y lloriau daear ac isaf, creu 2 fflat ar y llawr cyntaf (Marchnad agored) ynghyd ac amnewid y ffenestri UPVC diawdurdod gyda rhai gwydr dwbl efo ffrâm bren fain
NP5/78/91B	04/01/22	Wern Gron, Trawsfynydd. LL41 4UN	Trosi a newid defnydd beudy yn annedd fforddiadwy a uned llety gwyliau tymor byr ynghyd gosod tanc septig a gwaith cysylltiol

#### Disgwyl Cynlluniau Diwygiedig

NP3/12/126C	20/09/22	Bron Fedw Uchaf, Rhyd Ddu. LL54 7YS	Trosi a newid defnydd arfaethedig o allandai gwledig i 3 uned gwyliau i'w gosod, codi sgoror ystlumod, newidiadau i fynedfa cerbydau presennol a gwaith cysylltiedig
NP5/73/424A	28/09/20	Cilderi, Tan y Bwlch. Maentwrog. LL41 3YU	Codi garej dwbl, caniatâd ôl-weithredol am estynad i'r cwrtil, cadw'r terasiad cerrig a gwaith peirianeg.
NP5/75/68B	15/09/21	Tir ger Maesteg, Pennal. SY20 9DL	Codi pum annedd fforddiadwy ynghyd â mynediad, parcio a thirlunio cysylltiedig.

#### Disgwyl Arolwg Ystlumod

NP5/65/372	31/10/22	4 Cysgod y Celyn, Llanelltyd. LL40 2TA	Estyniad blaen unllawr yn cynnwys adeiladu wal gerrig ffiniol fer gyda mynedfa giât
------------	----------	--	---

#### Disgwyl Gwybodaeth Ecolegol

NP5/68/235	03/11/22	Tir ger Garreg Frech, Llanfrothen. LL48 6BZ	Adeiladu 8 tŷ a chreu mynedfa cerbydau a cerdded newydd
NP5/78/572	06/07/22	Tir yn Mynydd Bach, Trawsfynydd. LL41 4TR	Gosod tŵr dellt 30m o uchder sy'n cynnal 9 antenau, 6 dysglau trawsyrru, 6 cypyrddau offer, 1 cabinet medr, ynghyd â lleoli generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, ffurfio ardal llawr caled, adeiladu wal caergawell, a ffurfio cyfansawdd wedi'i ffensio

### Disgwyl Manylion gan yr Asiant / Ymgeisydd

NP3/21/T78	20/10/22	Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon, Bethesda. LL57 3LX	Defnyddio adeilad allanol lled-adfeiliedig i gadw storfa biomas a boeler
NP4/26/266Y	12/07/22	Zip World Fforest, Ffordd Llanrwst, Betws y Coed. LL24 0HX.	Creu llawr caled ar gyfer lleoli cynwysyddion tymhorol, lleoli tipî ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chais ôl-weithredol i gadw llwybr a phont car sglefrio'r goedwig, cysgodfan hopranau coed, ciosg camera, ciosg archebu, cwt byrbrydau, storfa cit y saffari coed a lloches, tai coed gyda rhwydi, sied tanc dŵr, lloches staff, llithren goedwig, adeiladau cit i ddefnyddio'r rhwydi goedwig a'r plymio.
NP5/54/585	21/12/22	Tir yn Ty Newydd-y-Mynydd, Rhydymain.	Gosod twr latis 50m o uchder sy'n cynnal 6 antena, 4 dysgl trawsyrru, a gosod 2 gabinet offer ar y ddaear, 1 cabinet metr, a datblygiad ategol gan gynnwys lleoli generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, ffurfio llawr caled, ffurfio trac mynediad newydd, ac adeiladu compownd wedi'i ffensio 1.1m o uchder.
NP5/58/629	29/01/20	Tir rhwng Plas Meini & Swyn y Mor, Dyffryn Ardudwy. LL42 2BH	Cais amlinell i godi pedwar ty deulawr ar wahân (2 marchnad agored a 2 ffoddiadwy) gyda garejis mewnol a chreu mynedfa gerbydau i'r A496
NP5/61/329B	29/06/22	Hafod Wen, Harlech. LL46 2RA	Codi ystafell ardd unllawr newydd ar slab concrit presennol a gwaith tirwedd gysylltiedig
NP5/62/T143B	05/10/22	Tanws Wern Gron, Llanbedr. LL45 2PH	Adfer, ymestyn a trosi hen felin i dŷ, creu cwrtil, a gosod tanc septic tanddaearol.
NP5/70/166	25/02/22	Ysgubor Esgeiriau, Rhosygwaliau. LL23 7ET	Trosi a newid defnydd adeilad amaethyddol segur, gosod trac mynediad a gwaith trin carthion iw ddefnyddio a fel llety gwyliau tymor byr fel rhan o priosect arallgyfeirio fferm.
NP5/71/117F	06/06/22	Tir yn Pant-y-Ceubren, Llanuwchllyn. LL23 7DD	Adeiladu tŷ deulawr ar wahân ar gyfer gweithiwr amaethyddol, adeiladu garej ar wahân, a gosod tanc carthion.
NP5/72/65H	01/07/22	Maes Carafanau Plas Moel y Garnedd, Llanycil. LL23 7YG.	Newid defnydd glaswelltir wedi'i wella ac adeiladau diangen er mwyn ymestyn maes carafanau presennol, ail-leoli naw maes gan gynnwys heolydd, llwybrau a thirlunio cysylltiol.
NP5/73/26C	06/10/22	Utica, Gellilydan. LL41 4DU	Newid defnydd tir i iard storfa allanol (Ail-gyflwyniad).
NP5/74/181A	05/10/22	Sgubor yn Neuadd Bryn Cleifion, Mallwyd, SY20 9HW	Trosi sgubor i breswyl a gosod tanc septig.
NP5/77/336G	12/08/22	Tir yn Cilfor, Llandecwyn.	Rhyddhau Amodau Rhif 4 (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu) & 11 (Cynllun Draenio Dŵr Aflan) a rhan o Amod Rhif 5 (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu & Cynllun Rheoli Mawn) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/77/336B dyddiedig 24/09/2021

### Ail-Ymgynghori

NP2/11/427A	21/12/22	Bwthyn Gwyn, Beddgelert. LL55 4NB	Tynu'r lolfâ haul presennol ac adeiladu estyniad ochr unllawr, newidiadau i'r ports ffrynt ac adeiladu dwy ddormer i'r drychiad cefn.
-------------	----------	-----------------------------------	---



NP2/16/416C	15/12/22	Safle Garejis Argoed, Garndolbenmaen. LL51 9RX	Adeiladu tŷ deulawr ar wahân
NP4/11/405	05/12/22	Swallow Falls Hotel, Betws y Coed. LL24 0DW	Gwaith adnewyddu gan gynnwys newidiadau allanol, cadw 3 pod glampio, 4 carafan sefydlog newydd, gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan, 6 man parcio carafan/"motorhome", gwaith trin carthion newydd, creu clwydfan ystlumod newydd a seilwaith gwasanaeth arall
NP5/50/743	06/04/22	Braich Gwyn, Aberdyfi. LL35 0RD	Trosi sgubor i dŷ yn cynnwys codi estyniad, a gosod uned trin carthion.
NP5/51/456B	11/11/22	Cae Mur Hywel, Caerdeon, Abermaw, LL42 1DZ	Ail-adeiladu hen adeiladau amaethyddol at ddefnyddiau atodol Cae Mur Hywel
NP5/64/190	12/10/22	Tir yn Ffridd Bryn Coch, Llanegryn. LL36 9UG	Gosod tŵr latis 20m o uchder sy'n cynnal 6 antena, 4 dysgl trawsyrru, 2 cwpwrdd offer, 1 caban mesur a datblygiad ategol iddo gan gynnwys generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, llecyn llawr caled, trac mynediad newydd a chompownd gyda ffens 2.4m o uchder gyda wal gabion.

### Disgwyl Gwybodaeth / Ymateb Ecoleg

NP5/57/1174	27/10/21	Tir ger Penmaen Ucha, Penmaenpool. LL40 1YD	Adeiladu annedd menter wledig, garej, mynedfa a thramwy newydd
NP5/75/264	20/10/22	Cilfan ar y A493 i'r dwyrain o Pennal	Lledu, rhoi wyneb newydd ac ymestyn y ramp mynediad presennol o'r gilfan ar ochr y ffordd i floc coedwig. Adeiladu trac tua 100m o hyd gan gynnwys lle troi ar ddiwedd y trac.

### Manylion pellach gan yr ymgeisydd dan ystyriaeth

NP5/73/423B	29/04/22	Y Felin Lfio, Tan y Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU	Trosi ty allan i lety anecs.
-------------	----------	--	------------------------------

### Disgwyl Asesiad Priodol ARHC

NP3/15/202C	05/12/22	Blaen y Nant, Nant Peris. LL55 4UL	Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad allanol sy'n cynnwys gweithdy, storfa a swyddfa
NP5/57/558D	07/07/22	Frongoch Old Power House, Plas y Brithdir, Dolgellau. LL40 2PW	Addasiadau i'r to gan gynnwys cynnydd bach mewn uchder a gosod 4 ffenestr to.
NP5/57/1167A	08/03/22	Ty'n-y-Bryn, Dolgellau. LL40 1TD	Adeiladu estyniad deulawr, cadw newidiadau i'r fynedfa bresennol, a cadw allandy
NP5/62/423	13/07/22	Coed Hafod y Bryn, Llanbedr.	Newidiadau i'r fynedfa bresennol i Coed Hafod y Bryn i gynnwys lledu'r fynedfa o 3.3m i 4.2m.
NP5/62/434	14/11/22	Ty Capel Moriah, Llanbedr, LL45 2LE	Addasiadau i dŷ capel presennol gan gynnwys adeiladu cyswllt newydd i'r festri cysylltiedig, gosod ffenestri to i do'r festri, a newid defnydd y festri a'r ardd i breswyl.
NP5/65/274H	24/03/22	Maes Hyfryd, Llanelltyd. LL40 2HF	Codi adeillad ffram dur ar llawr caled presennol i ddibenion cadw offer amaethyddol, bwyd anifeiliaid a gwrtaith.

NP5/65/330C	24/06/22	Hafod Fach, Llanelltyd. LL40 2HB	Dymchwel y tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd, ac amnewid y tanc septic presennol gyda uned trŷn carthion newydd.
NP5/65/367A	22/03/22	Dolfawr, Llanelltyd. LL40 2HD	Codi adeilad unllawr i'w ddefnyddio fel llety cathod masnachol
NP5/69/113N	07/11/22	Llanfendigaid, Rhoslefain. LL36 9LS	Newid defnydd yr hen felin i swyddfa a storfa
NP5/72/248	05/04/22	Tir ger Boch y Rhaidr, Arenig, Bala. LL23 7PB	Dau uned gwyliau a gosod uned trin carthion
NP5/78/19E	07/12/22	Hendre, Cwm Prysor, Trawsfynydd, LL41 4TR	Codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio tail dan do ar safle pwll slyri presennol.
NP5/78/482B	27/06/22	Y Goppa, Trawsfynydd. LL41 4TN	Codi sied ffrâm ddur at ddibenion storio amaethyddol

### Disgwyl Assessesiad Canlyniadau Llifogydd

NP5/61/580M	10/11/22	Tir i gefn Nant-y-Mynydd, Hwylfa'r Nant, Harlech.	Adeiladu byngalo dormer fforddiadwy ar wahân.
NP5/61/647	05/12/22	Ty'n y Gwater, Harlech. LL46 2UW	Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu tŷ menter gwledig deulawr newydd ar wahân

Nifer o geisiadau ar y rhestr = 44

Nifer o geisiadau ar y rhestr Pwyllgor 08 Mawrth 2023 = 40





**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD  
19 EBRILL 2023**

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 19 EBRILL 2023**

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

**Ceisiadau wedi ei caniatâu**

	<b>Rhif y Cais</b>	<b>Bwriad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad Penderfyniad</b>	<b>Swyddog Achos</b>
1.	NP2/16/447A	Gosod mast monopol 20m o uchder gyda 3 antena, 3 caban offer a datblygiad ategol	Tir yn Fferm Pen y Gaer, Mynydd Glas, Garndolbenmaen. LL51 9UQ	14/03/23	Mr Richard Thomas
2.	NP4/11/58H	Newid defnydd o adeiladau allanol domestig i gaffi (Dosbarth defnydd A3) a man chwarae meddal cysylltiedig i blant	Royal Oak Farmhouse, Betws-y-Coed. LL24 0AH	28/02/23	Mr Richard Thomas
3.	NP4/11/76U	Dileu Amod Rhif 4 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP4/11/76T dyddiedig 09/04/2021 er mwyn caniatâu defnydd parhaol o adeilad fel man arlwygo awyr agored a lleoli a defnyddio 4 pod arlwygo awyr agored yn barhaol	Glan Aber Hotel, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed. LL24 0AB	15/02/23	Mr Richard Thomas
4.	NP4/13/257	Adeiladu tair ystafell ddosbarth unllawr â ffrâm bren ag ochrau agored yn yr awyr agored	Plas-y-Brenin, Capel Curig. LL24 0ET	16/03/23	Mr Richard Thomas
5.	NP4/16/341F	Diwygiad ansylweddol i Ganiatad Cynllunio NP4/16/341E dyddiedig 15/03/2022 i ganiatâu rendrad wedi'i baentio yn lle carreg i ddrychiadau allanol	Bodegroes, Dolwyddelan. LL25 0JD	14/03/23	Mr Richard Thomas
6.	NP4/26/71A	Adeiladu sied storio unllawr	Ty'n y Bwlch, Capel Garmon. LL26 0RP	22/02/23	Mr Richard Thomas
7.	NP4/32/295A	Gosod tanc olew 3500 litr ar gyfer gwresogi domestig a bwyler gwresogi domestig allanol	Cysgod Y Mynydd, Jubilee Road, Trefriw, LL27 0SQ	21/02/23	Mr Richard Thomas
8.	NP4/32/329G	Gosod arae ffotofoltaig o 20 panel 8KW wedi'i osod ar y ddaear ac isadeiladwaith cysylltiedig	Gelli Newydd, Trefriw, LL27 0QA	21/02/23	Mr Richard Thomas



9.	NP5/50/744	Creu llawr caled 12m x 12m gyda cyflenwad pŵer a dwr	Y Compownd ger yr Iard Cychod, Penrhos, Aberdyfi.	21/03/23	Ms. Sophie Berry
10.	NP5/55/21E	Cais ôl-weithredol i gadw estyniad i adeilad amaethyddol	Tynllwyn Hen, Brynchrug. LL36 9RE	28/02/23	Mrs. Iona Roberts
11.	NP5/57/LB176 C	Caniatad Adeilad Rhestredig am newidiadau allanol gan gynnwys gwaith plwm newydd Cod 4 i'r corn Gogleddol, adfer manylion cerrig diddos, ail ffurfio fflawnsiad serth llechen i'r capin, llechen gwyntyllu 'Klober' ar y to llethr Dwyreiniol, newid 3 o ffenestri upvc drychiad Gorllewinol a ffenestr codi fertigol traddodiadol coed, W8, W5, W3, tynnu ardal o blaster hyd linell yr estyniad blaenorol ac ail bwyntio a chalch poeth drychiad Gorllewinol. Newid blaen siop a manylion siop 2 panel traddodiadol, adfer manylion pilaster coed ar blinth llechen, newidiadau i'r grisiau tynnu'r concriid i gynnwys crawiau llechen bensaernïol i'r fynedfa adfer y drysau gyda ffenestr lintern wedi gwydro o fewn ffrâm ddelltwaith haearn i'r patrwm presennol a thynnu offer lloeren, gwifrau ag offer larwm diogelwch	5 Eldon Row, Eldon Square, Dolgellau. LL40 1PY	24/02/23	Ms Eleanor Carpenter
12.	NP5/57/LULB4 25M	Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon ( Defnydd Presennol) i sefydlu'r defnydd cyfreithlon ar gyfer rhan o'r llawr cyntaf a'r ail lawr (defnydd preswyl (C3) yn cynnwys cyfanswm o ddau fflat)	Mervinian House, Heol Meurig, Dolgellau. LL40 1LN	09/03/23	Ms Eleanor Carpenter
13.	NP5/58/18Z	Codi wel atal llifogydd 1.1 metr o uchel yn ymestyn ar hyd ffin terfyn Gogledd / Gogledd Dwyreiniol Barmouth Bay Holiday Park ger yr Afon Ysgethin	Barmouth Bay Holiday Park, Ffordd Glan-Mor, Talybont. LL43 2BJ	22/02/23	Mr Aled Lloyd

14.	NP5/58/647A	Adeiladu estyniad unllawr ac estyniad dau lawr y cefn a'r ochr ynghyd, ports newydd ar y blaen a gwaith allanol cysylltiedig	Ty Isaf, Talybont. LL43 2AS	15/03/23	Mr Aled Lloyd
15.	NP5/61/548B	Dymchwel yr ystafell haul ac adeiladu estyniad unllawr ar yr ochr (Cais diwigiedig)	Ynys y Niwl (Buckland), Hen Ffordd Llanfair, Harlech. LL46 2SS	15/03/23	Mr Aled Lloyd
16.	NP5/61/649	Adeiladu ty gyda lefelau ar wahan (marchnad agored)	Tir i gefn Dol Aur, Hen Ffordd Llanfair, Harlech, LL46 2SS	09/03/23	Mr Aled Lloyd
17.	NP5/61/659	Newidiadau i ledu'r fynedfa gerbydol bresennol 1.3medr	Eryl Y Mor, Heol Y Bryn, Harlech, LL46 2TU	22/03/23	Mr Aled Lloyd
18.	NP5/61/68H	Rhyddhau Amod 4 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/61/68G dyddiedig 30/06/2022 ar gyfer cyflwyno mesurau gwella bioamrywiaeth / cydadferol	Plas Amherst, Harlech. LL46 2RA	22/02/23	Mr Aled Lloyd
19.	NP5/62/6D	Amnewid ffenestri pren presennol gyda ffenestri Upvc (8 ar y ffrynt, 4 ar yr ochr, a 6 ar y edrychiad cefn)	Ty Mawr Hotel, Llanbedr. LL45 2NH	15/03/23	Mr Aled Lloyd
20.	NP5/63/LU282	Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Arfaethedig) ar gyfer tanc gwaddodi cynradd concrit newydd (9.4m x 4.5m), dwy uned hidlo aeredig dur gwyrdd tywyll cyfagos ac uned hidlo aeredig tanddwr GRP (3.6m x 5.5m x 11.0m), tanc llaid dur a gorchudd gwyrdd tywyll 5.5m x 5.5m), canolfan rheoli modur GRP gwyrdd tywyll (3.0m x 4.0m x 12.0m), pypiau dad-slwts tanc gwaddodi cynradd concrit o dan y ddaear (1.0m x 2.0m, x 2.5m), a siambr ddsbarthu concrit (2.3m x 2.4m x 3.4m)	Safle Gwaith Trin Dwr Gwastraff Bala, Y Bala	13/03/23	Mr. Dafydd Thomas



21.	NP5/64/92F	Caniatâd ol-weithredol ar gyfer lleoli carafan am gyfnod dros dro i'w ddefnyddio fel storfa ar gyfer eiddo tra bod ty y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo dan gyfeirnod NP5/64/92D dyddiedig 15/12/2020 yn cael ei adeiladu	Llain Y Pistyll, Llanegryn, LL36 9LL	21/03/23	Mrs. Alys Tatum
22.	NP5/65/250A	Gosod ffenestri to ar ffrynt a chefn y ty annedd, gosod paneli solar ar do'r garej a dymchwel rhan o'r garej bresennol i'w ddisodli gan storfa groesfan lliniaru ystlumod	Ael-y-Bryn, Taicynhaeaf, Bontddu. LL40 2TU	21/03/23	Mrs. Iona Roberts
23.	NP5/66/272	Newidiadau i adeilad allanol presennol a chodi penty newydd ar y ffermdy	Tyddyn y Gwynt, Llanfair. LL46 2TH	20/03/23	Mr Aled Lloyd
24.	NP5/66/8K	Rhyddhau Amod Rhif 5 (cynllun plannu) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/66/8H dyddiedig 22/09/2022	Cei Pensarn, Llanbedr. LL45 2HP	15/02/23	Mr. Dafydd Thomas
25.	NP5/66/LB12H	Diwygio Amod Rhif 2 o Ganiatad Cynllunio NP5/66/LB2G ar gyfer newidiadau mewnol a adfer 3 ffenestr to ar yr edrychiad blaen	Ty'n Llan, Llanfair, Harlech, LL46 2SA	16/02/23	Ms Eleanor Carpenter
26.	NP5/66/T278A	Adeiladu estyniad ochr unllawr newydd gyda'r estyniad ochr presennol wedi'i ymgorffori yn yr estyniad newydd	Hen Gaerffynon, Harlech, LL46 2RA	09/03/23	Mr Aled Lloyd
27.	NP5/69/407A	Amrywio Amod 2 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/69/407 dyddiedig 25/02/2021 i newid dyluniad y ty a hepgor y garej	Tir yn Brynllwyn, Rhoslefain. LL36 9NH	28/02/23	Mr Richard James
28.	NP5/69/409B	Diwygiad ansylweddol i Ganiatad Cynllunio NP5/69/409 dyddiedig 19/04/2021 i ddiwygio dyluniad yr estyniad	Heddwch, Llwyngwriil, LL37 2JD	21/02/23	Mrs. Iona Roberts
29.	NP5/70/146A	Trosi ac ail adeiladu ty blaenorol yn dy fforddaidwy angnehion lleol ynghyd a ffurfioli'r fynedfa gerbyd	Moel-y-Ddinas, Rhosygwaliau. LL23 7EY	21/03/23	Mrs Jane Jones

30.	NP5/70/169A	Creu man llwytho i ddibenion coedwigaeth	Coed Dol Risgl, Rhosygwaliau. LL23 7ET	22/03/23	Mr. Dafydd Thomas
31.	NP5/70/L4B	Newidiadau i'r 'ystafell gemau' bresennol i gynnwys dymchwel estyniadau, amnewid talcendo a ffenestr to llusern gyda tho brîg newydd a thalcenni gwydr	Bryniau Goleu, Llangywer. LL23 7BT	23/03/23	Mr. Dafydd Thomas
32.	NP5/71/135C	Cais ôl-weithredol i gadw to dros storfa tail presennol	Coed Talog, Parc, LL23 7YN	21/03/23	Mr. Dafydd Thomas
33.	NP5/73/PIAW1 97M	Cais am gymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl i godi adeilad ar wahan deulawr i ddarparu 15 ystafell gwesteion fel llety gwyliau gwasanaeth mewn perthynas a Bryn Arms	Bryn Arms, Gellilydan. LL41 4EN	09/03/23	Mr Aled Lloyd
34.	NP5/74/482B	Adeiladu ty menter gwledig deulawr ar wahân	Tir ger Y Fynwent, Dinas Mawddwy.	14/03/23	Mr. Dafydd Thomas
35.	NP5/77/31L	Cais ol-weithredol am estyniad unllawr yn cynnwys rhodfa wydrog a chanopi yn y cwrt cefn	Caerffynnon Hall, Talsarnau. LL47 6TA	06/03/23	Mrs. Alys Tatum



### Ceisiadau wedi ei gwrthod

	<b>Rhif y Cais</b>	<b>Bwriad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Rheswm Gwrthod</b>	<b>Swyddog Achos</b>
1.	NP4/11/393A	Trosi ac ymestyn adeilad allanol i greu uned wyliau hunain arlwyo tymor byr, creu trac mynediad, newidiadau i fynedfa cerbydau a gwaith cysylltiedig (Ail gais)	Adeilad allanol yn Craig Glanconwy, Betws y Coed.	<p>28/02/23</p> <p>Oherwydd bod yr adeilad allanol gwledig hwn mewn cyflwr adfeiliedig heb unrhyw strwythur to na gorchudd a bod angen sefydlu trac mynediad newydd i gerbydau, maes parcio a man troi, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â Pholisïau CDLIE DP1 a DP9.</p> <p>Oherwydd bod yr ymgeisydd yn methu â dangos y gallu i sicrhau ymlediadau gwelededd cerbydol i'r naill gyfeiriad a'r llall yn y man lle mae'r trac mynediad arfaethedig yn mynd i mewn i'r briffordd sirol a fyddai'n cyrraedd y safonau gofynnol ac a nodir gan yr Awdurdod Priffyrdd byddai'r cais hwn pe bai'n cael ei ganiatáu yn berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd ac felly'n gwrthdaro â pholisi CDLIE 1 a NCT 18.</p> <p>Oherwydd bod yr ymgeisydd yn cyflwyno cais a allai niweidio materion o natur ecolegol a choedyddiaeth, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisi 1 a D CDLIE a PCC.</p> <p>Oherwydd methiant y cynnig hwn i ddangos gwelliant bioamrywiaeth addas o fewn y ffin ddatblygu neu o fewn ardal sydd ym mherchnogaeth neu reolaeth yr ymgeisydd, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisi D CDLIE a PCC.</p>	Mr Richard Thomas

2.	NP4/13/155F	Trosi a newid defnydd adeilad allanol, byncws a bloc toiledau/cawodydd yn 6 uned llety gwyliau hunangynhwysol tymor byr ynghyd â hreu maes parcio a chyfleusterau awyr agored cysylltiedig	Bryn Tyrch, Capel Curig. LL24 0EL	14/03/23  Oherwydd bod y cais yn methu â darparu digon o wybodaeth angenrheidiol am faterion ecolegol a thrafnidiaeth y gellir gwneud penderfyniad gwybodus yn eu cylch, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisïau 1 a D o GDLIE	Mr Richard Thomas
3.	NP5/50/L68B	Estyniadau a newidiadau i fflat perchennog uwchben y siop bresennol	Nandoras, 19 Glandyfi Terrace, Aberdyfi. LL35 0ED	08/03/23  Ystyrir bod y cynnig, oherwydd ei uchder, ffurf a deunyddiau, yn achosi effaith weledol annerbyniol ar gymeriad presennol y safle, Ardal Gadwraeth Aberdyfi a gosodiadau cyfagos yr Adeilad Rhestredig Gradd II (Rhif 18 Neuadd Feddygol) ac Adeilad Traddodiadol (Capel yr Annibynwyr). Mae'r cynnig yn gwrthdaro â CDLIE, SP A, DP 1, SP Ff, DP 6 DP 7 a DP 15.  Ystyrir bod y cais, oherwydd yr uchder arfaethedig ar y cyd â'r teras cefn a diffyg gwybodaeth i allu asesu'n llawn y posibilrwydd o golli golau, yn achosi effaith andwyol annerbyniol ar fwynderau presennol yr eiddo cyfagos i'r gorllewin. Mae'r cynnig yn gwrthdaro â CDLIE, SP A, DP 1 a DP 15.  Ystyrir bod y cynnig, yn rhinwedd cyfeirio'r holl ddŵr wyneb i'r brif garthffos yn annerbyniol ar sail draenio cynaliadwy ac mae'n gwrthdaro â CDLIE SP A DP 1 a DP 15.	Mr Richard James



4.	NP5/52/29B	Lleoli 2 gwt bugail ar gyfer defnydd llety gwyliau	Ty Nant, Islaw'r Dref, Dolgellau. LL40 1TL	22/02/23  Ni fyddai'r cynnig yn gysylltiedig â chynllun arallgyfeirio amaethyddol nac yn atodol i atyniad ymwelwyr presennol. Y cytiau bugeiliaid fyddai'r unig atyniad yn Nhŷ Nant ac felly mae'r cynnig yn groes i Bolisi DP29.  Nid yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddigon eglur i ddiystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd nodweddion o bwysigrwydd ecolegol cydnabyddedig sef y llystyfiant arnofiol a hen goedydd derw mes digoes ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd. Mae'r cynnig felly yn groes i bolisiau SPD a DP1(v a xii).	Ms. Sophie Berry
5.	NP5/54/583	Atgyweirio ac ymestyn ty presennol	Ty'r Orsaf, Drws-y-Nant, Rhydymain. LL40 2BE	23/03/23  Oherwydd maint y bwriad, nid yw'r estyniad arfaethedig yn cydymffurfio â'r meini prawf a amlinellir ym Mholisi Datblygu 15 o'r CDLIE ac oherwydd y dyluniad arfaethedig a'r defnydd o ddeunyddiau byddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad a gosodiad y ty gwreiddiol yn ogystal ag ar ei amgylchoedd ehangach. Mae'r cais felly'n gwrthdaro â pholisiau CDLIE Ff, 1, 6, 7 a 15.	Mr. Dafydd Thomas
6.	NP5/55/11M	Estyniad i drosiad sgubor presennol ac ymestyn cwrtil domestig	Fferm Cynfal, Brynchrug, LL36 9RB	21/03/23  Byddai'r estyniad arfaethedig oherwydd ei faint, ffurf, dyluniad a'r defnydd o ddeunyddiau yn amharu ar y prif annedd ar draul ei gymeriad a'i olwg ac felly'n gwrthdaro â Pholisiau Datblygu 1 (i, ii a iv),	Ms. Sophie Berry

				<p>6 a 15 o Cynllun Datblygu Lleol Eryri.</p> <p>Nid oes digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno i asesu effaith y bwriad ar nodweddion o bwysigrwydd cydnabyddedig, sef bioamrywiaeth, ac nid oes unrhyw fath o welliant ecolegol wedi ei gynnig fel rhan o'r cais ac felly mae'n gwrthdaro gyda Pholisi Strategol D a'r rhwymedigaeth i ymgorffori'r datblygiad. gwella bioamrywiaeth yn unol â pharagraff 6.4.5 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021).</p>	
7.	NP5/59/511L	<p>Diwygiad ansylweddol i Ganiatad Cynllunio NP5/59/511F dyddiedig 11/06/2018 i gael gwared o'r garej i llian 15, diwgio gofod garej o fewn lleiniau 5 i 16 i ffurfio pedwaredd ystafell wely ychwanegol, a newid yr holl anheddau o 3 ystafell wely i gymysgedd o anheddau 2, 3 a 4 ystafell wely</p>	Tir i gefn Penrhiw, Ffestiniog.	<p>23/02/23</p> <p>Ym marn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mae'r diwygiadau a gynigir yn cael eu hystyried yn ddiwygiadau 'sylweddol' eu natur gan y byddant yn arwain at newid sylweddol i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. O'r herwydd ni ellir ystyried y newidiadau arfaethedig yn newid 'ansylweddol' a bydd angen caniatâd cynllunio newydd arnynt.</p>	Mr Aled Lloyd
8.	NP5/74/L167H	Trosi capel i dy a gosod ffenestri to i'r edrychiad cefn, a gosod uned trîn carthion	Capel Tarsus, Cwm Cywarch, Dinas Mawddwy. SY20 9JG	<p>13/03/23</p> <p>Oherwydd ei gynigion dylunio (gan gynnwys estyniad to fflat), ei ffurf a chymeriad y cynigion hyn, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gymeriad a gosodiad yr adeilad capel traddodiadol yn ogystal â'i osodiad ehangach o fewn y dirwedd. Mae'r cynnig felly yn groes i Bolisi Datblygu 1, 6, 9 a 15 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri sy'n ceisio</p>	Mr. Dafydd Thomas



				<p>sicrhau na fydd unrhyw drosiad na newid defnydd adeiladau gwledig yn cael effaith andwyol ar gymeriad ac edrychiad yr adeilad neu'r dirwedd ehangach ac nad yw unrhyw estyniad yn cael effaith andwyol ar fwynderau lleol ac yn gweddu i gymeriad yr adeilad presennol.</p>	
9.	NP5/77/328D	Trosi eglwys i dy, a chodi estyniad ochr a gosod 6 ffenestr to (3 ar yr edrychiad De Ddwyrain a 3 ar yr edrychiad Gogledd Orllewin)	Christ Church, Talsarnau. LL47 6UB	<p>22/03/23</p> <p>Oherwydd bod yr ymgeiswyr yn anfodlon neu'n methu â gwneud cytundeb adran 106 ac yn cytuno i dalu swm gohiriedig i ddarparu tai meddiannaeth leol fforddiadwy yn rhywle arall, mae'r cais hwn yn groes i bolisiâu CDLIE C, 9, G a 30 a Chynllunio Atodol. Arweiniad 4</p>	Mr Aled Lloyd

## Penderfyniad Apêl

---

gan Iwan Lloyd BA BTP MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 20/03/2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-01888-Y0N7K9

Cyfeiriad y safle: Hen Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored Nant y Rhiw, Nant y Rhiw, Llanrwst LL26 0TN

---

- Cyflwynir yr apêl o dan Adran 106B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhyddhau rhwymedigaeth gynllunio.
  - Cyflwynir yr apêl gan Sean Taylor yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
  - Y datblygiad y mae'r rhwymedigaeth gynllunio'n ymwneud ag ef yw caniatâd i drawsnewid hen ganolfan gweithgareddau awyr agored yn annedd.
  - Gwnaed y rhwymedigaeth gynllunio, dyddiedig 27 Chwefror 2008, rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
  - Gwrthodwyd y cais, Cyf. NP4/26/22F, dyddiedig 15 Ionawr 2020, trwy hysbysiad dyddiedig 22 Hydref 2021.
  - Diben y cais oedd ceisio rhyddhau'r rhwymedigaeth gynllunio.
  - Cynhaliwyd ymweliad safle ar 14 Tachwedd 2022.
- 

### Penderfyniad

1. Caniateir yr apêl. Nid yw'r rhwymedigaeth gynllunio, dyddiedig 27 Chwefror 2008, a wnaed rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn cyflawni diben defnyddiol mwyach, ac fe'i rhyddheir.

### Materion Gweithdrefnol

2. Y dyddiad ar y cais yw 15 Ionawr 2020, ond y dyddiad a roddwyd ar y ffurflen apêl a phenderfyniad yr Awdurdod yw 2021, ac rwyf wedi ystyried bod y dyddiad hwyrach, sef 15 Ionawr 2021, yn gywir. Yr ymgeisydd yw perchennog yr eiddo ac mae wedi trawsnewid ac ymestyn yr adeilad i greu annedd. Nid oedd yr ymgeisydd wedi llofnodi'r rhwymedigaeth, a oedd rhwng dau awdurdod lleol. Pridiant tir yw'r rhwymedigaeth sy'n cysylltu'r tir a'r adeiladau iddo.

### Y Prif Fater

3. Y prif fater yw p'un a yw'r rhwymedigaeth yn parhau i gyflawni diben defnyddiol.



## Rhesymau

4. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i drawsnewid yr hen ganolfan gweithgareddau awyr agored yn annedd yn 2008, yn gysylltiedig â rhwymedigaeth gynllunio sy'n rheoli ei meddiannaeth i unigolyn lleol. Mae wedi'i lleoli yng nghefn gwlad tua 2.3 milltir i'r de o Lanrwst ar hyd ffordd gerbydau sengl yn Nant y Rhiw. Mae'r eiddo ar wahân sydd wedi'i drawsnewid wedi cael ei ymestyn ac mae'n cynnwys adeilad allan yn y cefn i ffurfio rhan o'r llety sy'n cynnwys pedair ystafell wely, ystafelloedd byw a chegin. Mae garej wedi cael ei chodi nesaf at y fynedfa â giatiau. Mae'r Awdurdod yn nodi y cymeradwywyd caniatâd ar gyfer y gwaith hwn yn 2011.
5. Mae'r rhwymedigaeth yn cyfyngu ar feddiannaeth yr annedd i unigolyn sy'n cael ei gyflogi neu a gyflogwyd ddiwethaf mewn crefft, busnes neu broffesiwn rheolaidd mewn lleoliad o fewn radiws o ddwy filltir i'r safle, gan gynnwys dibynyddion y cyfryw unigolyn sy'n byw gydag ef neu hi, neu briod neu wraig neu ŵr gweddwr cyfryw unigolyn. O ran pobl ddi-waith, mae meddiannaeth yr annedd wedi'i chyfyngu i unigolyn a oedd yn byw o fewn radiws o ddwy filltir o'r safle drwy gydol y cyfnod blaenorol o dair blynedd, gan gynnwys ei ddibynyddion ef neu hi neu wraig neu ŵr gweddwr cyfryw unigolyn.
6. Mae'r rhwymedigaeth yn datgan, os na fydd unigolyn sy'n bodloni'r amodau cymhwyso uchod yn prynu, rhentu neu feddiannu'r eiddo ar ôl i'r eiddo gael ei gynnig i'w werthu neu ei rentu am gyfnod o chwe mis am bris priodol i'r farchnad sy'n adlewyrchu'r cytundeb ar y farchnad dai agored leol, bydd y pellter cymhwyso ym mhob achos yn cael ei gynyddu i 5 milltir. Ar ôl chwe mis arall o farchnata, gellir cynyddu'r pellter cymhwyso i 30 milltir.
7. Mae'r eiddo wedi'i leoli yng nghefn gwlad agored. Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Eryri 2016-2031 Polisi Strategol G: Tai (G) yn nodi'r gofyniad tai ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae Polisi Strategol C yn amlinellu'r strategaeth datblygu gofodol ac yn cyfeirio at gefn gwlad agored a thrawsnewid adeiladau gwledig ar gyfer tai fforddiadwy ac anghenion lleol yn rhan o'r hierarchaeth datblygu gofodol.
8. Mae Polisi 30 y CDLI: Tai Fforddiadwy yn amlinellu'r targed tai fforddiadwy o 375 o unedau a'r cyfraniad tai fforddiadwy ar gyfer categori'r anheddiad. O ran trawsnewidiadau yn unrhyw le yn ardal y Parc, mae'n gyfraniad pum deg y cant neu gyfraniad swm gohiriedig neu, fel arall, gall y trawsnewidiad fod yn 100% fforddiadwy gydag amodau meddiannaeth leol. Mae Polisi 9 yn caniatáu trawsnewid adeiladau gwledig y tu allan i unrhyw ffin datblygu tai ar gyfer tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol a defnydd cyflogaeth, neu annedd marchnad agored gan dalu swm gohiriedig ar yr amod y bodlonir meini prawf penodol yn ymwneud â chyflwr strwythurol ac ystyriaethau cynllunio arferol eraill.
9. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy 4 (SPG 4) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mis Ionawr 2020, yn nodi y bydd anheddau fforddiadwy newydd a ddarperir trwy drawsnewid adeiladau'n ddefnydd preswyl yn cymhwyso'r cyfraniad tai 50% neu daliad swm gohiriedig trwy Bolisi 30 a Pholisi 9 y CDLI. Mae Adran 10 SPG 4, tudalen 34, yn ymdrin â rhwymedigaethau a dileu cyfyngiad tai lleol.
10. Mae'r SPG yn nodi y caiff yr Awdurdod ystyried naill ai disodli'r cyfyngiad presennol ar feddiannaeth leol â chytundeb Adran 106 diwygiedig ynglŷn â thai fforddiadwy gyda gostyngiad canrannol (yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad agored a'r gwerth fforddiadwy yn yr ardal) neu ystyried amrywiad i'r cytundeb Adran 106 gwreiddiol yn amodol ar dalu swm gohiriedig tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn y dyfodol.
11. Mae'n nodi mai'r swm gohiriedig a geisir fydd y gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad agored a'r gwerth fforddiadwy ar gyfer yr ardal. Byddai'r ymgeisydd yn darparu gwerth marchnad agored yr eiddo gan ddau syrfëwr siartredig â chymwysterau priodol yn unol â

phrasiad y llyfr coch, a byddai'n cael ei gytuno gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Mewn achosion lle yr anghytunir ynglŷn â'r prisiad marchnad agored, ceisir gwasanaethau'r Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth.

12. Pan fydd gwahaniaeth sylweddol rhwng y gwerth marchnad agored a'r gwerth fforddiadwy, bydd yr Awdurdod yn ystyried derbyn swm gohiriedig is. Bydd y swm wedi'i seilio ar lefelau Canllawiau Costau Derbynol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer tŷ â dwy ystafell wely ar gyfer pedwar unigolyn yn yr ardal. Cyfrifir y cyfraniad ariannol yn seiliedig ar 58% o'r ffigur hwn.
13. Mae'r Awdurdod yn nodi ei fod wedi gwahodd yr apelydd i lunio cytundeb Adran 106 newydd neu dalu swm gohiriedig addas yn unol â pholisïau'r CDLI ac arweiniad SPG 4. Mae'r Awdurdod yn honni bod y rhwymedigaeth yn parhau i wasanaethu diben defnyddiol wrth geisio cyflawni nodau ac amcanion polisïau tai'r CDLI ac y byddai dileu neu beidio â thalu swm gohiriedig yn groes i bolisi a'r SPG.
14. Mae'r rhwymedigaeth yn cyfyngu ar feddiannaeth i unigolion a gyflogir neu a gyflogwyd ddiwethaf mewn crefft neu fusnes neu broffesiwn mewn lleoliad o fewn radiws o ddwy filltir o'r safle. Byddai'r radiws chwilio daearyddol cul hwn yn golygu y byddai angen i unigolyn cymwys fod ar gael ac yn barod i brynu'r eiddo a chael ei gyflogi yn yr ardal uniongyrchol. Dim ond rhan o anheddiad cyfagos Llanrwst fyddai o fewn cyrraedd i'r cyfyngiad daearyddol hwn. Byddai Betws-y-coed rhyw 4 milltir i ffwrdd a'r tu allan i delerau'r rhwymedigaeth oni bai y cychwynnir y meini prawf rhaeadru. Byddai'r meini prawf rhaeadru'n caniatáu i'r ardal chwilio gynyddu 5 milltir arall yn y chwe mis cyntaf ac yna 30 milltir mewn chwe mis arall os na ddeuir ar draws unrhyw unigolion cymwys.
15. Mae'r rhwymedigaeth unigolyn lleol yn gyfyngol iawn yn yr achos hwn gan fod rhwymedigaethau eraill yn dechrau gydag ardal ddaearyddol fwy. Fodd bynnag, nid yw'r rhwymedigaeth yn cyfyngu ar feddiannaeth yr annedd i'r bobl hynny y mae arnynt angen tai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'n lleihau gwerth yr eiddo. Mae p'un a fyddai'r gwerth yn adlewyrchu annedd fforddiadwy ai peidio yn bwysig yng nghyd-destun yr ardal, a ph'un a yw'r rhwymedigaeth yn parhau i gyflawni diben defnyddiol. Os byddai rhwymedigaeth yn parhau i gyflawni diben defnyddiol mae'n rhaid iddi fod yn angenrheidiol, yn berthnasol, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad, ymwneud â'r datblygiad yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math, a bod yn rhesymol ym mhob ffordd arall.
16. Prisiwyd eiddo'r apêl rhwng £300,000 a £350,000. Mae'r apelydd yn nodi bod hyn gyda chyfyngiad y rhwymedigaeth A106 ar waith. Incwm canolrifol aelwydydd yng Nghonwy Uwch yw £28,850 (CACI, pay-check, 2021). Mae'r SPG yn cyfeirio at luosrif incwm 3.5 gwaith i gyfrifo cymhwysedd am forgais ar gyfer annedd fforddiadwy. Byddai cymryd y ffigur incwm aelwyd canolrifol a'i luosi â 3.5 yn gyfystyr â chymhwysedd am forgais uchaf o £100,975, neu £115,400 os defnyddir lluosrif o 4. O ystyried bod yr SPG yn cyfeirio at flaendal o 20% (£60,000 ar gyfer prisiad £300,000), y cymhwysedd morgais uchaf ar gyfer unigolyn cymwys gan ddefnyddio'r incwm aelwyd canolrifol yn yr ardal (3.5 gwaith lefelau incwm a blaendal) fyddai £160,975. Mae diffyg sylweddol rhwng ffigur y prisiad is o ystyried y cyfyngiad a chymhwysedd morgais uchaf unigolyn cymwys yn yr ardal.
17. Nid wyf o'r farn y byddai'r annedd hon o fewn cyrraedd yr unigolion lleol hynny y mae arnynt angen annedd fforddiadwy na'r rhai hynny y gellid ystyried eu bod yn y categori tai canolraddol. Mae'r apelydd yn cyfeirio at chwilio am eiddo o fewn tair milltir o safle'r apêl sy'n dangos bod eiddo cyfatebol ar y farchnad agored am lai nag eiddo'r apêl gyda'r prisiad cyfyngedig ar waith. Byddai aelwyd yn gallu prynu eiddo marchnad agored dilyffethair am swm tebyg neu lai nag eiddo'r apêl, sy'n dangos felly nad yw'r rhwymedigaeth yn cyflawni llawer o ran angenrheidrwydd a rhesymoldeb.



18. I ddechrau, byddai'r SPG a pholisi yn ceisio disodli'r cyfyngiad presennol ar feddiannaeth leol â chytundeb Adran 106 diwygiedig ynglŷn â thai fforddiadwy gyda gostyngiad canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad agored a'r gwerth fforddiadwy yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos yn debygol y byddai eiddo'r apêl yn gymwys fel tŷ fforddiadwy o ystyried ffigurau'r prisiad a roddwyd a'r gwahaniaeth rhyngddo â'r cymhwysedd morgais uchaf o ran fforddiadwyedd. Mae eiddo'r apêl yn sylweddol fwy na maint mwyaf unedau fforddiadwy a ganiateir ar gyfer annedd ddeulawr â 4 ystafell wely, sef 110m<sup>2</sup>. Gan fod yr annedd yn fwy o lawer na'r trothwy hwn, nid wyf yn credu y byddai'n cyd-fynd ag unrhyw gytundeb adran 106 diwygiedig ynglŷn â thai fforddiadwy.
19. Fel y nodwyd, mae'r gwahaniaeth rhwng y prisiad (sef y prisiad cyfyngedig) a'r gwerth fforddiadwy yn sylweddol. Pe byddai eiddo'r apêl wedi cael ei adeiladu a'i drawsnewid fel yr eiddo hwn o'r dechrau, mae'n debygol y byddai wedi cael ei wrthod oherwydd byddai wedi bod yn fwy na'r maint mwyaf a ganiateir, sy'n dangos nad yw'r rhwymedigaeth yn parhau i gyflawni diben defnyddiol.
20. Y dewis amgen yn ôl yr SPG/polisi fyddai talu swm gohiriedig addas. Byddai'r swm hwn yn cael ei gyfrifo yn ôl y gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad agored a'r gwerth fforddiadwy ar gyfer yr ardal. Pan fydd gwahaniaeth sylweddol, bydd y swm yn cael ei seilio ar lefelau Canllawiau Costau Derbynol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer tŷ â dwy ystafell wely ar gyfer pedwar unigolyn yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr SPG yn cyfrifo'r gwahaniaeth mewn lefelau Canllawiau Costau Derbynol rhwng tŷ â 4 ystafell wely a'r gwerth marchnad agored yn senario'r apêl hon.
21. Mae'r esboniad o'r polisi ar gyfer bodloni'r targed tai fforddiadwy ym mharagraff 5.16 yn egluro y bydd meddiannaeth leol anheddau fforddiadwy a'u gwerthoedd yn y dyfodol yn cael eu rheoli gan gytundeb Adran 106 cyfreithiol rwydol, a'i bod yn debygol y bydd rhai trawsnewidiadau'n rhy gostus i barhau i fod yn fforddiadwy. Mae'r gofyniad am dalu swm gohiriedig yn berthnasol i bob trawsnewidiad ac nid yw'r esboniad polisi y bydd rhai trawsnewidiadau'n rhy gostus yn cael ei gymhwyso'n ymarferol, oherwydd byddai rhyw elfen o gyfraniad swm gohiriedig yn cael ei disgwyl beth bynnag fo'r gwahaniaeth mewn gwerthoedd a ystyrir.
22. Fel arfer, cyfrifir y gwerth marchnad agored fel traean yn uwch na'r prisiad cyfyngedig o £300,000 i £350,000. Byddai gwahaniaeth sylweddol rhwng y gwerth marchnad agored a'r gwerth fforddiadwy ar gyfer yr ardal. Mae'r taliad swm gohiriedig yn cael ei gymhwyso yn yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â thrawsnewidiadau mawr er mwyn sicrhau tai fforddiadwy yn rhywle arall. Er bod y gofyniad polisi'n cyd-fynd â'r prawf perthnasol ar gyfer codi'r rhwymedigaeth, yn fy marn i, nid yw'n ymwneud â'r datblygiad yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math ac nid yw'n rhesymol ym mhob ffordd arall.
23. Am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu uchod, nid yw'r rhwymedigaeth yn parhau i gyflawni diben defnyddiol. Er nad yw'n cyd-fynd â pholisïau'r cynllun datblygu a'r SPG, ystyriaf fod y rhwymedigaeth yn methu profion y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (2010) a'r profion a amlinellir yng Nghylchlythyr 13/97 ar Rwymedigaethau Cynllunio.
24. Nodaf bryderon y Cyngor Cymuned ynglŷn â chodi'r rhwymedigaeth hon. Fodd bynnag, fel y nodwyd, nid yw'r rhwymedigaeth yn bodloni'r rhan fwyaf o'r profion ar gyfer gosod rhwymedigaeth, a amlinellir yn fanylach uchod.

### **Casgliadau**

25. Ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, deuaif i'r casgliad y dylid caniatáu'r apêl, ac y dylai'r rhwymedigaeth gynllunio gael ei rhyddhau.

Cyf: CAS-01888-Y0N7K9

26. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*Iwan Llloyd*

AROLYGYDD